# Cynnwys


Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 8
5 - Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2012-2013 12
    Atodiad 1 13
6 - Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch 38
7 - Y Gofrestr Fuddiannau 41
8 - Safon Gwynedd a'r Drefn Ddatrys Leol 44
    Atodiad 1 46
    Atodiad 2 47
9 - Honiadau yn erbyn Aelodau 49
11 - Protocol Cyswllt Aelod - Swyddog 52
    Atodiad 1 54
    Atodiad 2 62
12 - Protocol ar y Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Gynghorwyr 69
    Atodiad 1.0 70
    Atodiad 1.1 73
    Atodiad 1.2 74
    Atodiad 1.3 92

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU

# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

***11.00am, DYDD LLUN, 27 IONAWR, 2014**

***11.00am, MONDAY, 27 JANUARY, 2014**

***D.S. Rhagflaenir gan sesiwn hyfforddiant i'r aelodau am 10.00am /**
***N.B. To be preceded by a training session for members at 10.00am**

Lleoliad / Location

****Siambr Hywel Dda,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

***nodwch y lleoliad ogydd / please note venue*

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 17/01/14*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

**Ar wahoddiad y Cadeirydd / Invited by the Chairman**

Y Cynghorydd / Councillor Lesley Day (Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd / Chairman of the Democratic Services Committee)
eitem / item 12.

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2012-2013

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 6. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 7. Y GOFRESTR FUDDIANNAU

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 8. SAFON GWYNEDD A'R DREFN DDATRYS LEOL

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 10. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwyno cofnodion y Fforwm a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2013 (copi Saesneg ynghlwm).

## 11. PROTOCOL CYSWLLT AELOD/SWYDDOG

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

## 12. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GYNGHORWYR

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol (copi ynghlwm).

# AGENDA

**1. APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 30 September, 2013 be signed as a true record (copy attached).

**5. ADJUDICATION PANEL FOR WALES - ANNUAL REPORT 2012-2013**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**6. GIFTS AND HOSPITALITY REGISTER**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**7. THE REGISTER OF INTERESTS**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**8. THE GWYNEDD STANDARD AND THE LOCAL RESOLUTION PROCEDURE**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**9. ALLEGATIONS AGAINST MEMBERS**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**10. NORTH WALES STANDARDS COMMITTEE FORUM**

To submit the minutes of the Forum held on 21 October, 2013 (English copy attached).

**11. THE PROTOCOL FOR MEMBER / OFFICER RELATIONS**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy attached).

**12. SOCIAL MEDIA PROTOCOL FOR MEMBERS**

To consider the report of the Senior Manager – Corporate Commissioning (copy attached).

# PWYLLGOR SAFONAU, 30.09.13

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Miss Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones, Mr Sam W.Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweithrediaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** Arweinyddion/cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2013 fel rhai cywir.

## 3. ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Estynnodd y Cadeirydd groeso i arweinyddion / cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol oedd yn bresennol i drafod y gwaith y gellir ei wneud mewn cysylltiad â chynnal safonau ymddygiad.

Yn bresennol i drafod y mater gydag aelodau'r pwyllgor 'roedd y Cynghorwyr Gareth Roberts (yn cynrychioli'r Arweinydd), Roy Owen, Owain Williams a Stephen Churchman.

Eglurodd y Cadeirydd rôl a phwrpas y pwyllgor gan geisio barn yr arweinyddion / cynrychiolwyr ar y 5 cwestiwn a ganlyn:-

1) Beth arall y gall y pwyllgor ei wneud i hyrwyddo safonau uchel y Cyngor?
2) Beth ydi rôl y grwpiau gwleidyddol mewn cynnal safonau?
3) Beth ydi'r prif faterion ymddygiad y dylai'r pwyllgor drafod?
4) Sut y gellir annog aelodau i fynychu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad?
5) Beth yw eich barn ar ddatrys cwynion yn anffurfiol? (h.y. o fewn y grwpiau, gyda'r Swyddog Monitro a'r Prif Weithredwr neu yn y Pwyllgor Safonau, heb fynd at yr Ombwdsmon).

Yn ystod y drafodaeth ar y mater, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Mai mater i'r unigolyn oedd parchu'r Côd Ymddygiad ac na allai'r Arweinyddion wneud mwy na rhoi aelodau eu grŵp ar ben ffordd drwy geisio codi eu hymwybyddiaeth ynglŷn â'r côd.
- Y byddai'n fuddiol amgáu crynodeb syml o'r Côd Ymddygiad gyda rhaglenni cyfarfodydd y Cyngor. Gellid hefyd gael '*App'* ar yr I-pad fyddai'n atgoffa'r aelodau'n rheolaidd o brif ofynion y Côd Ymddygiad.
- Mae ymgymryd â hyfforddiant yn rhan o swydd cynghorydd, ond mae angen i'r hyfforddiant hwnnw gael ei gyflwyno mewn ffordd ddiddorol a dealladwy.
- Bod hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn bwysicach nag unrhyw beth a dylai fod yn fandadol. Dylai hefyd fod yn fwy nag ymarfer ticio bocsys ac efallai bod angen mwy nag un cwrs y flwyddyn.
- Y byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant i gynghorwyr ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel aelodau o'r gwahanol bwyllgorau. I'r gwrthwyneb, nodwyd na fyddai'n ymarferol darparu hyfforddiant ar bopeth a bod yna elfen o synnwyr cyffredin yn dod i mewn i hyn.
- Y byddai'n fuddiol cael mwy o rybudd ymlaen llaw ynglŷn â chyrsiau hyfforddiant. O bosib', gellid cynnwys eicon ar y '*Desktop'* ar yr I-pad i gysylltu â'r rhaglen hyfforddi.
- Bod angen codi proffil y Pwyllgor Safonau yn gyffredinol, yn ogystal ag ymhlith y cynghorwyr sir a chynghorwyr tref a chymuned.
- Ei bod yn rhy hawdd i bobl wneud cŵyn swyddogol i'r Ombwdsmon a bod angen tynhau ar hyn mewn rhyw ffordd.
- Bod y drefn o ddatrys cwynion yn anffurfiol / lleol i'w gymeradwyo. Byddai'n syniad rhoi cyflwyniad i'r aelodau yn y Cyngor llawn yn eu hatgoffa o'r drefn i'w dilyn o ran ceisio datrys cŵyn yn lleol a'r ffaith bod drws y Swyddog Monitro yn agored bob amser. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Pwyllgor Safonau wneud mwy i ledaenu'r neges ymhlith y cyhoedd, megis drwy gynnal '*roadshows'*. Hefyd, os yw'r trefniadau mewnol anffurfiol i'w gweld yn gweithio, efallai y dylid eu hymestyn fel bod cwynion gan y cyhoedd yn cael eu datrys yn fwy anffurfiol.
- Mai'r hyn sy'n bwysig yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar draws y sir gyfan. Rhaid bod yn dryloyw ac mae cyfrifoldeb ar gynghorwyr i ymddwyn mewn ffordd deg, democrataidd, agored a chyfiawn.

Nododd y Swyddog Monitro y bu'n fuddiol cael clywed sylwadau'r arweinyddion a gofynnodd am farn y pwyllgor ar y materion a godwyd gan y grwpiau.

Nodwyd:-

- Y cefnogid sylwadau'r arweinyddion o safbwynt (i) cynnwys crynodeb o brif ofynion y Côd Ymddygiad gyda rhaglenni'r Cyngor / ar yr I-pads, (ii) ceisio addysgu'r cyhoedd bod modd datrys cwynion yn anffurfiol heb fynd at yr Ombwdsmon, (iii) ymestyn proffil y pwyllgor yn gyhoeddus ac ymysg y cynghorwyr a (iv) cyflwyno hyfforddiant ar y Côd yn amlach a'r syniad o'i wneud yn fandadol.
- Y gellid defnyddio 'Newyddion Gwynedd' i godi ymwybyddiaeth am y Pwyllgor Safonau a'r protocolau a'r codau sy'n berthnasol i'w waith.
- Y byddai'n syniad lledaenu'r neges yn y Cyngor llawn bod raid i bob aelod ymgymryd â hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.
- Y gellid darparu hyfforddiant i'r aelodau ar y Côd Ymddygiad yn y Fforymau Ardal gan gyflwyno sefyllfaoedd enghreifftiol er mwyn dod â'r peth yn fyw i'r aelodau.

Holwyd a oedd adnoddau ar gael i weithredu hyn i gyd. Atebodd y Swyddog Monitro y byddai'n rhaid teilwrio'r gwaith i'r adnoddau sydd ar gael. Bwriadai gynnal trafodaeth gyda'r Uned Technoleg Gwybodaeth yn dilyn y cyfarfod hwn, ond 'roedd yn tybio na fyddai rhai o'r camau a argymhellwyd yn galw am lawer o amser nac adnoddau.

Nodwyd y byddai'n fuddiol gwybod faint o gostau fyddai'n cael eu harbed o ddatrys mwy o gwynion yn lleol yn hytrach na mynd yn syth at yr Ombwdsmon.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu awgrymiadau'r arweinyddion a symud ymlaen i weithredu arnynt.**

## 4. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar y mater, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at ran 3 o'r adroddiad, holwyd a gafwyd datrysiad i'r mater hwn bellach o ystyried bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r Pwyllgor Safonau gynnal gwrandawiad mewn cysylltiad â'r gŵyn yn erbyn y Cynghorydd A.M.Jones. Atebodd y Swyddog Monitro ei bod ar ddeall gan y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu'r apêl fod trafodaeth wedi bod gyda'r cynghorydd, ond na lwyddwyd eto i gael dyddiad ar gyfer gwrandawiad. Ychwanegodd fod swyddfa Panel Dyfarnu Cymru wedi cydnabod bod 12 mis yn gyfnod rhy hir i drefnu apêl, beth bynnag fo'r amgylchiadau, ac y byddent yn ceisio cael penderfyniad i gael dyddiad. 'Roedd yn rhoi pwysau cynyddol ar y swyddfa er mwyn ceisio dirwyn yr holl fater i ben, ond hyd yma, nid oedd wedi derbyn dyddiad na gwybodaeth ynglŷn â'r hyn fyddai'n digwydd.
- Holwyd a oedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio'n gyflymach i gwynion erbyn hyn. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd tystiolaeth o hynny, ond ei fod yn dod i benderfyniad i ymchwilio ai peidio yn gynt.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod y pwyllgor hwn yn anfon llythyr at swyddfa Panel Dyfarnu Cymru yn pwyso arnynt i symud achos apêl y Cynghorydd A.M.Jones yn ei flaen, gan fod methu cael datrysiad i'r mater yn dwyn anfri ar y drefn yn ei chyfanrwydd.**

**(b) Dylai'r llythyr nodi hefyd bod y pwyllgor hwn yn dymuno gweld rhyw fath o orfodaeth ar bobl i droi i fyny mewn gwrandawiadau apêl yn y dyfodol, a bod y pwyllgor hwn yn cadw hynny mewn cof hefyd, os a phan y bydd yn cynnal gwrandawiad arall i gŵyn yn erbyn aelod yn y dyfodol.**

**(c) Gofyn i Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru drafod, ac anfon sylw os yn briodol, ynglŷn â'r amser mae'n gymryd i'r Ombwdsmon ymchwilio i gwynion.**

## 5. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ac yn gofyn i'r pwyllgor ystyried eu haddasu yn benodol i Wynedd a/neu lunio protocol penodol ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at benderfyniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn eu cyfarfod ar 10 Medi i argymell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Safonau i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer

Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor).

Awgrymwyd y gellid gofyn i'r cynghorau cymuned a thref ystyried mabwysiadu'r un canllawiau maes o law. Nododd y Swyddog Monitro y byddai'n rhoi'r syniad hyn gerbron yr Is-grŵp a gofynnodd i'r aelodau anfon i'w sylw unrhyw sylwadau eraill y dymunent i'r Is-grŵp eu hystyried.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Argymell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.**

**(b) Argymell sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor).**

**(c) Enwebu Cadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor hwn a Linda Byrne (ynghyd â David Clay yn dirprwyo iddynt) i wasanaethu ar yr is-grŵp.**

## 6. HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar yr hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno ar y Côd Ymddygiad ac ar drefniadau hyfforddi am y flwyddyn i ddod.

Gan gyfeirio at ran 3(c) o'r adroddiad, nododd y Swyddog Monitro ei bod wedi trefnu dau sesiwn ar gyfer clercod cynghorau tref a chymuned ar y cyd â'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – y naill yng Nghaernarfon ar 3 Hydref a'r llall yn Nolgellau ar 7 Hydref. Hyd yma, o'r 55 clerc yng Ngwynedd, 'roedd 9 enw i lawr ar gyfer Caernarfon a 6 ar gyfer Dolgellau.

Mynegwyd pryder bod cyn lleied o glercod yn mynychu sesiynau hyfforddiant. Cwestiynwyd a oedd aelodau'r cynghorau cymuned a thref yn gwybod am y sesiynau hyn gan fod y gwahoddiadau'n cael eu hanfon at y clercod, yn hytrach na'r cynghorau eu hunain.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn yr adroddiad ar yr hyfforddiant sydd wedi ei ddarparu ac ar gynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

**(b) Pan gynhelir hyfforddiant i glercod cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol, bod y gwahoddiadau yn cael eu hanfon at y cynghorau eu hunain, yn hytrach na'r clercod.**

**(c) Gofyn i'r clercod fydd yn mynychu'r hyfforddiant ym mis Hydref nodi ar eu ffurflenni adborth a gawsant sêl bendith eu cyngor i fynychu ai peidio.**

**(ch) Cynnal awr o sesiwn hyfforddiant penodol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau ar gychwyn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr, fydd yn cynnwys ail-edrych ar oddefiadau a threfnu a chynnal gwrandawiadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.45pm.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Ionawr 2014** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2012 - 2013** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad.  Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer y flwyddyn 2012 - 2013.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru

## Adroddiad Blynyddol



2012 – 2013

ISBN digidol 978 1 4734 0533 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG20325

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu gwaith Panel Dyfarnu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13.

Yn ystod 2012-13, dim ond 5 atgyfeiriad newydd a gafodd y Panel gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac roedd 4 o apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol. Cafodd 4 achos arall eu dwyn ymlaen o 2011-12. Mae crynodeb o'r achosion y penderfynwyd arnynt ar gael yn Adran 3.

Er bod nifer yr achosion newydd yn parhau'n gymharol isel, erbyn hyn mae'r aelodau newydd a benodwyd yn 2010 wedi cael cyfle i eistedd ar wrandawiadau tribiwnlys. Credaf fod hyfforddi a datblygu Aelodau'r Panel yn hollbwysig ac, unwaith eto, mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o weithgareddau'r Panel dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynhaliwyd hyfforddiant seminar Panel Dyfarnu Cymru ym mis Hydref, lle darparwyd hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol yn ogystal â chyfle i aelodau newydd drafod eu profiadau gyda'r aelodau gwreiddiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn sgil ei *'Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru'*. Trosglwyddod gweinyddiaeth y Panel i Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013. Fel rhan o'r trosglwyddo, rwy'n croesawu Leon Mills sef Cofrestrydd newydd y Panel yn lle Stephen Phipps, a oedd yn roi cymorth yn ystod y cyfnod pontio.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ddiolch i Stephen Phipps am ei waith caled a'i ymroddiad i'r panel yn ystod ei gyfnod gyda'r Panel Dyfarnu. Hoffwn ddiolch hefyd i John Davies a Jason Plange am eu hamser yn yr Uned Gymorth yn ogystal â Carol Webber (a adawodd yr Uned Gymorth yn ystod y cyfnod adrodd) am yr holl gymorth a roddasant i'r Panel Dyfarnu.

I gloi, fy ngobaith yw y bydd yr adroddiad hwn a'r crynodebau achos o ddiddordeb i chi. Unwaith eto, mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Panel er mwyn arbed costau argraffu.



J PETER DAVIES
Llywydd y Panel Dyfarnu

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Y Cefndir** | 4 |
| 1.1 | Deddf Llywodraeth Leol 2000 | 4 |
| 1.2 | Egwyddorion Ymddygiad/Cod Ymddygiad | 5 |
| 1.3 | Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 5 |
| 1.4 | Rôl Panel Dyfarnu Cymru | 6 |
| **2.** | **Aelodau Panel Dyfarnu Cymru** | 8 |
| **3.** | **Honiadau o Gamymddwyn** | 11 |
| 3.1 | Trosolwg | 11 |
| 3.2 | Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos 2012 – 2013 | 12 |
| 3.3 | Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2012 – 2013 | 17 |
| 3.4 | Achosion sy'n Parhau | 18 |
| **4.** | **Trosolwg o'r Gweithdrefnau** | 19 |
| **5.** | **Yr Uned Gymorth** | 21 |

**Atodiad**

Crynodeb o'r cosbau a bennwyd gan y tribiwnlysoedd achos a'r tribiwnlysoedd apêl 22

# 1. Y Cefndir

## 1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith newydd i annog aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i gydymffurfio â safonau ymddygiad cyson. Yn y bôn, mae'r fframwaith yn cynnwys:

- cyfres o ddeg egwyddor ymddygiad cyffredinol (yn deillio o'r "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus");
- codau ymddygiad safonau ar wahân ar gyfer aelodau a swyddogion;
- pwyllgorau safonau lleol i gynghori aelodau ac awdurdodau perthnasol ar safonau ymddygiad;
- ymchwiliadau i gamymddwyn honedig gan aelodau yng Nghymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu swyddogion monitro awdurdodau lleol; a
- dyfarnu ymchwiliadau o'r fath gan bwyllgorau safonau lleol neu, gan mwyaf mewn achosion mwy difrifol, Banel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu").

"Awdurdodau perthnasol" dan Ran III o Ddeddf 2000 mewn perthynas â Chymru yw cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol.

Mae Llywodraeth y DU yn pennu egwyddorion a chod ymddygiad ar wahân ar gyfer awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd awdurdodau'r heddlu eu dileu ym mis Tachwedd 2012 a bellach mae yna 4 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCC) yn eu lle sy'n cwmpasu Cymru. Goruchwylir y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gan y Paneli Heddlu a Throseddu a ffurfiwyd i graffu ar benderfyniadau'r Comisiynwyr.

## 1.2 Egwyddorion Ymddygiad/Cod Ymddygiad

Ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, mae gan Weinidogion Cymru y grym o dan Ddeddf 2000 i bennu egwyddorion ymddygiad cyffredinol ac i wneud cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Seiliwyd yr egwyddorion ar 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' sydd i'w gweld yn adroddiad yr Arglwydd Nolan, 'Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Caiff yr egwyddorion cyffredinol eu hymgorffori yn y cod ymddygiad enghreifftiol cyfredol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol yng Nghymru – hynny yw, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chynghorau cymuned, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub – fabwysiadu cod ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau'r cod enghreifftiol. Mae'n rhaid i bob aelod etholedig a chyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) roi ymrwymiad ysgrifenedig i gydymffurfio â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eu hawdurdod.

## 1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/y Pwyllgorau Safonau

O dan Ddeddf 2000, caiff unrhyw un wneud honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bod aelod etholedig neu gyfetholedig o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu, neu y gall fod wedi methu, cydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod.

Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod cyfiawnhad dros ymchwilio i'r honiad gall drefnu i'r ymchwiliad gael ei gynnal gan ei swyddfa. Fel arall, gall yr Ombwdsmon gyfeirio'r mater at y swyddog monitro perthnasol er mwyn ymchwilio iddo a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol.

Gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad ar ôl yr ymchwiliad nad oedd achos o dorri'r cod ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os oes tystiolaeth prima facie o dorri'r cod, bydd yr Ombwdsmon yn llunio adroddiad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac yn ei anfon naill ai at swyddog monitro yr awdurdod perthnasol neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn cael dyfarniad terfynol.

## 1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod;
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r cod ymddygiad.

## Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, caiff "tribiwnlys achos" sy'n cynnwys rhai o aelodau'r Panel ei alw i ystyried yr adroddiad, i dderbyn tystiolaeth ac i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad.

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod, mae ganddo bwerau i wahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at flwyddyn; neu caiff anghymhwyso'r aelod am hyd at bum mlynedd.

Os bydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun heb gydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, caiff y person hwnnw ofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaiff y tribiwnlys o ran cosb.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd, gall yr Ombwdsmon wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymell bod aelod yn cael ei wahardd dros dro tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylid gwahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at chwe mis.

# Tribiwnlysoedd Apêl

Os bydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater at swyddog monitro a bod y pwyllgor safonau wedi dyfarnu bod aelod heb gydymffurfio â'r cod ymddygiad, mae gan yr aelod hwnnw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Rhaid defnyddio’r hawl honno cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r aelod gael gwybod am ddyfarniad y pwyllgor safonau. Os bydd tribiwnlys apêl yn cytuno bod yr aelod wedi torri'r cod, gall gadarnhau'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau neu gall gyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor gan argymell y dylid rhoi cosb wahanol. Yn ogystal, gall tribiwnlys apêl wrthdroi dyfarniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.

# 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Dangosir aelodau presennol y Panel Dyfarnu isod. Gyda'i gilydd, mae gan aelodau'r Panel brofiad a gwybodaeth berthnasol eang i'w gyfrannu at waith y Panel a'i dribiwnlysoedd. Maent yn dod o bob cwr gwahanol o Gymru sy'n hwyluso'r broses o benodi aelodau i dribiwnlysoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, pedwar o'r aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.

## Y Llywydd ac Aelodau Cyfreithiol



2002-2015

Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies** yn rhedeg ei bractis cyfreithiol ei hun yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol ac, yn arbennig, mewn materion rheoleiddio. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



2010-2015

Bu **Ms Kate Berry**'n Gyfreithiwr a Swyddog Monitro gyda Chyngor Dinas a Sir Caerdydd. Mae ganddi gefndir yng nghyfraith y sector preifat a'r sector cyhoeddus a bu'n gynghorydd tref yn Nailsworth.



2010-2015

Ar hyn o bryd, mae **Mrs Emma Boothroyd** yn ddyfarnwr gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Mae ganddi brofiad ym maes cyfraith breifat.



2002-2015

Mae **Mrs Helen Cole** yn uwch bartner mewn practis cyffredinol yn y Gorllewin ac yn arbenigo mewn gwaith annadleuol ar ran cleientiaid preifat.



2010-
2015

Mae **Mr Gwyn Davies** yn gyfreithiwr sydd â phrofiad mewn awdurdodaethau cyfreithiol amrywiol yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.



2002-
2015

Mae **Mr Hywel James** yn Farnwr Rhanbarth.

## Aelodau Lleyg



2010-
2015

Mae **Mr Andrew Bellamy** yn Gyfarwyddwr anweithredol gydag Estyn ac yn adolygydd cymheiriaid gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru. Mae ganddo brofiad o weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.



2002-
2015

Bu **Mr Ian Blair** yn Syrfëwr y Sir gyda Chyngor Sir Powys ac yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.



2002-
2015

Mae'r **Cynghorydd Colin Evans** yn gynghorydd Llafur ar Gyngor Sir Caerfyrddin.



2010-
2015

Mae **Miss Susan Hurds** yn aelod lleyg o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru a Lloegr. Mae ganddi brofiad o weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn fwyaf ddiweddar gyda Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Panel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.



2002-
2015

Mae **Mrs Christine Jones** yn gyn-aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Cartrefi Conwy.



2002-
2015


Mae **Ms Juliet Morris** yn rhedeg busnes fferm organig yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n gweithio ym maes polisi cymdeithasol a pholisi'r sector cyhoeddus gyda chyrff yn cynnwys Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol, Cyngor Defnyddwyr Cymru a'r sector cynghori annibynnol yng Nghymru.

# 3. Honiadau o Gamymddwyn


## 3.1 Trosolwg

Yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a 31 Mawrth 2013, daeth y Panel Dyfarnu i benderfyniad ar 44 o achosion a atgyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon ac 11 apêl yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau safonau. Mae Ffigurau 1 i 3 yn dangos canlyniadau'r dyfarniadau hynny. Rhoddir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.


### Ffigur 1: Penderfyniadau tribiwnlysoedd achos – Hydref 2002 i Fawrth 2013




### Ffigur 2: Penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl – Hydref 2002 i Fawrth 2013



## Ffigur 3: Sut y torrwyd y cod Hydref 2002 – Mawrth 2013




## 3.2 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion 2012 – 2013

Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 5 achos i'r Panel yn ystod 2012-13 a dygwyd 4 achos ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Ceir crynodeb isod o'r 7 achos a benderfynwyd gan y Panel yn ystod y flwyddyn.

## APW/002/2011-012/CT – Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy wneud ymosodiadau personol parhaus o natur sarhaus yn erbyn y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Swyddog Monitro ar y pryd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro blaenorol a gwneud ceisiadau niferus am wybodaeth gan roi pwysau gormodol a baich sylweddol ar Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor.

Dywedodd y cynghorydd ei fod, wrth wneud y sylwadau a oedd wrth wraidd y gŵyn yn ei erbyn, ei fod yn gweithredu fel aelod o'r cyngor drwy amlygu gweithgareddau a oedd, yn ei dyb ef, yn amhriodol. Roedd yn cyflawni'r dyletswyddau a roddwyd iddo fel cynrychiolydd etholedig Cyngor Sir Ynys Môn. Drwy dynnu sylw at ymarfer ymddangosiadol amheus pobl eraill roedd yn cyfrannu'n ymarferol at lywodraethu da yn yr ardal, gan gynrychioli buddiannau'r rhanbarth etholiadol dan sylw i bob pwrpas ac yn ceisio sicrhau bod y safon uchaf o ran ymddygiad a moeseg yn cael ei chynnal.

Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd, drwy ei weithredoedd tuag at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd, yn enwedig yr iaith a ddefnyddiwyd, wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth a bod ei weithredoedd hefyd yn gyfystyr â bwlio ac aflonyddu.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fel uwch swyddog, nad oedd gweithredoedd y cynghorydd fel uwch swyddog yn gyfystyr â bwlio neu aflonyddu ar y Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro. Fodd bynnag, dyfarnodd y tribiwnlys fod gwneud honiadau di-sail yn y cyfryngau cyhoeddus yn datgan bod y cyfarwyddwr dro yn annonest a llwgr yn dangos ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth gan dorri paragraff 4(b) y Cod.

Dyfarnodd y tribiwnlys nad oedd unrhyw god wedi'i dorri mewn perthynas â'i ymddygiad tuag at y Swyddog Gwybodaeth. Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod ceisiadau'r cynghorydd yn gwbl briodol a bod ei lythyrau at y Swyddog Gwybodaeth yn briodol o ran cynnwys a mynegiant.

Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod gweithredoedd y cynghorydd wedi torri cod 6(1)(a) o'r cod ymddygiad, sef bod yr honiadau di-sail parhaus o natur ddifrifol yn erbyn uwch swyddogion y cyngor yn gyhoeddus yn sicr o danseilio'r Awdurdod a dwyn anfri arno. Yn ogystal, roedd yr iaith a ddefnyddiodd y Cynghorydd a'r ffaith bod y tribiwnlys wedi dyfarnu nad oedd ei resymau yn ddiffuant yn dwyn anfri pellach ar y swyddogaeth.

Penderfynodd y Tribiwnlys yn unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd dros dro rhag gweithredu fel aelod o'r cyngor am gyfnod o 12 mis.

## APW/003/2011-012/CT, APW/005/2012-013/CT & APW/007/2012-013/CT – Cyngor Cymuned Coedpoeth

Cyfeiriwyd tri achos ar wahân gan yr Ombwdsmon ac ystyriwyd y rhain gan Dribiwnlys unigol.

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor Cymuned uchod drwy ei ymddygiad a'i arestio yn sgil hynny am dor heddwch yn ystod protest, methu â dangos parch ac ystyriaeth at Glerc y Cyngor Cymuned, ei ymddygiad, cael ei arestio, ac yna cael ei garcharu a pheidio â chydweithredu â'r awdurdodau perthnasol yn dilyn protest mewn Llys Sirol a methu â chydweithredu ag ymchwiliad yr Ombwsdmon i'r honiadau hyn.

Yn absenoldeb unrhyw ymateb priodol ac ystyrlon gan y cyn-gynghorydd, penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd, drwy ei weithredoedd, wedi torri'r cod ymddygiad, a thrwy ei agwedd annerbyniol tuag at yr ymchwiliad a'r ffaith iddo ddiystyru'r cod yn gyffredinol, wedi dangos nad oedd yn deilwng o ddal swydd gyhoeddus ac nad oedd yn debygol o fod yn deilwng am y 5 mlynedd nesaf.

Yn unol â hynny, penderfynodd tribiwnlys yr achos anghymhwyso'r cynghorydd am 5 mlynedd o fod yn aelod o'r cyngor cymuned neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.

## APW/001/2012-013/CT – Cyngor Cymuned Llantrisant

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad Cyngor Cymuned Llantrisant drwy bostio sylwadau sarhaus iawn heb eu profi am gyn-gymydog ar Facebook.

Dywedodd y cynghorydd mai mater teuluol preifat ydoedd ac na fu unrhyw fwriad i ddwyn y mater i sylw'r cyhoedd. Eglurodd y cynghorydd ei bod wedi gweithredu'n fyrbwyll ac wedi postio'r sylwadau er mwyn amddiffyn ei mab. Dywedodd y cynghorydd na fu bwriad ganddi i achosi niwed neu drallod i unrhyw un a'i bod yn gweithredu fel mam yn hytrach na chynghorydd.

Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd wedi postio tair neges drwy ei chyfrif Facebook a bod tudalen proffil y cynghorydd yn cyfeirio at ei swydd fel

cynghorydd cymuned. Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod anfon sylwadau mor gyhoeddus heb dystiolaeth briodol i gadarnhau hynny yn ymddygiad nad oedd yn dderbyniol gan aelod etholedig. Roedd y tribiwnlys yn ystyried bod gwneud sylwadau mor sarhaus ar safle rhwydweithio cymdeithasol a'r ffaith i'r cynghorydd fethu â chymryd camau i dynnu'r sylwadau hynny oddi ar y safle ar unwaith yn ymddygiad a oedd ym marn y tribiwnlys, yn dwyn anfri ar swyddogaeth cynghorydd cymuned.

Ystyriodd y tribiwnlys yr holl ffeithiau, ac yn benodol y ffaith ei fod yn ddigwyddiad unigryw a gododd o rywbeth a ddylai wedi aros yn fater teuluol preifat. Nododd y tribiwnlys y llythyrau geirda ardderchog a dderbyniwyd i gefnogi'r cynghorydd a'r gwaith y mae'n ei wneud yn y gymuned. Nododd y tribiwnlys yr effaith y mae'r achos hwn wedi'i chael ar y cynghorydd a'r gofid y mae wedi'i achosi i'r teulu cyfan. Er hynny, roedd y tribiwnlys yn bryderus nad oedd y cynghorydd yn gwerthfawrogi'n llawn pa mor ddifrifol oedd ei gweithredoedd. Ystyriodd y tribiwnlys y ffaith iddi wrthod ymddiheuro i'r sawl a gwynodd a'r ffaith na chymrodd unrhyw gamau cadarnhaol i ddileu'r sylwadau. Ystyriodd y tribiwnlys y ffaith bod y cynghorydd yn credu bod ei sylwadau yn wir ond er hynny roedd yn ystyried bod ei gweithredoedd yn amhriodol yn yr amgylchiadau. Roedd y tribiwnlys o'r farn bod y gollfarn yn y Llysoedd am dramgwydd o dan Adran 4 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn fater difrifol i gynghorydd cymuned.

Yn yr holl amgylchiadau penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd dros dro rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Llantrisant am gyfnod o 6 mis, neu os yw'n llai, weddill ei chyfnod yn y swydd. Ystyriodd y tribiwnlys fod y gosb hon yn angenrheidiol er mwyn adlewyrchu natur ddifrifol yr achos o gamymddwyn a chynnal safonau mewn bywyd cyhoeddus. Ystyriai'r tribiwnlys fod cyfnod o wahardd dros dro yn briodol yn amgylchiadau'r achos hwn er mwyn rhoi cyfle i'r cynghorydd ystyried ei gweithredoedd. Ystyriai'r tribiwnlys fod gwaharddiad am gyfnod o 6 mis yn gymesur yn yr amgylchiadau hyn.

## APW/002/2012-013/CT – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Yr honiadau oedd bod cyn-gynghorydd wedi torri cod ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy anfon e-bost at holl aelodau'r Cyngor lle y bu iddo gamliwio canlyniad gwrandawiad tribiwnlys blaenorol; drwy gydweithredu â'r Merthyr Express er mwyn creu stori am ei waharddiad; camliwio penderfyniad

y tribiwnlys pan ysgrifennodd at y Merthyr Express; cyhoeddi llythyr cyfrinachol a deunydd tebyg arall ar ei flog ac yntau eisoes wedi'i wahardd gan y Panel Dyfarnu am hynny; cymryd rhan mewn rhaglen ffonio fyw ar y radio gan gamliwio polisïau'r Cyngor a methu â datgan ei fod, ar y pryd, wedi'i wahardd dros dro o'r Cyngor.

Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd wedi camliwio ei swyddogaeth fel cynghorydd yn barhaus ac yn fwriadol ar ôl cael ei wahardd gan dribiwnlys blaenorol, mewn negeseuon e-bost, blogiau, llythyrau ac erthyglau i'r wasg a rhaglen ffonio ar y radio yn ystod cyfnod o dri mis yn dilyn penderfyniad y tribiwnlys; ei fod wedi camliwio dyfarniadau'r tribiwnlys blaenorol yn fwriadol a pharhaus; wedi camliwio'r Cyngor a'i bolisïau; ac, er gwaethaf dyfarniad y tribiwnlys blaenorol, wedi cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol yn fwriadol ac wedi methu â gofyn am gyngor gan yr awdurdodau priodol.

Casglodd y tribiwnlys yr yn unfrydol y dylid anghymhwyso'r cyn-gynghorydd am dair blynedd o fod neu ddod yn aelod o gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Ddeddf Lywodraeth Leol 2000, a hynny ar unwaith.

## APW/004/2011-012/CT – Cyngor Sir Ddinbych

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi tramgwyddo paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) drwy wneud sylwadau amhriodol ar ddau achlysur gwahanol ynghylch Mwslimiaid, sipsiwn a theithwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol.

Penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol mewn perthynas â'r ddau honiad, fod y cyn-gynghorydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 4(b) o god ymddygiad y cyngor. Dyfarnodd y tribiwnlys ymhellach fod y cynghorydd wedi torri paragraffau 4(a) a 6(1)(b).

Penderfynodd y tribiwnlys fod ymddygiad y cyn-gynghorydd yn haeddu cerydd gan nad oedd yn dderbyniol i unrhyw gynghorydd ddefnyddio iaith a mynegi barn mewn ffordd a fyddai'n amhriodol neu'n sarhaus i bobl eraill.

## 3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2012 – 2013

Roedd 1 gwrandawiad tribiwnlys apêl yn ystod y flwyddyn.

## APW/003/2012-013/A – Cyngor Sir Ynys Môn

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau Cyngor Sir Ynys Môn fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor, ac y dylid ei wahardd dros dro am gyfnod o 6 mis.

Roedd yr achos yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o god ymddygiad y Cyngor o ganlyniad i dderbyn collfarn droseddol am fethu â datgan ei incwm llawn wrth ymgeisio am Fudd-dal Analluogrwydd, gan ddwyn anfri ar ei swyddogaeth neu'r awdurdod.

Penderfynodd y tribiwnlys ei bod yn amlwg bod y cynghorydd yn amharod i fod yn onest a'i fod yn gyndyn i ddarparu datganiad llawn a chywir o wybodaeth i'r rhai a oedd yn ymchwilio i'r honiad oni bai fod pwysau arno i wneud hynny neu tan y byddai pwysau arno i wneud hynny.

Penderfynodd y tribiwnlys ei bod yn arwyddocaol bod y cynghorydd yn ymddangos yn amharod i ddysgu unrhyw wersi neu'n methu gwneud hynny yn sgil y ffaith ei fod wedi'i erlyn yn y Llys Ynadon ar gyhuddiadau troseddol am iddo fethu â gwneud datgeliad llawn o'i amgylchiadau wrth hawlio budd-daliadau. Petai'r cynghorydd wedi dysgu o'r profiad hwnnw, dylai fod wedi sylweddoli, wrth gydweithredu â'r ymchwiliad dilynol gan yr Ombwdsmon a'i ymddangosiad ger bron y pwyllgor safonau, bod dyletswydd arno i ddarparu gwybodaeth lawn a chywir wedi'i gwirio'n ofalus er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw bosibilrwydd o gamddealltwriaeth ac y byddai modd cael gwared ag unrhyw amheuon ynglŷn â'i onestrwydd.

Roedd dyletswydd arno hefyd i weithredu mewn ffordd y byddai aelodau'r cyhoedd a chyd-gynghorwyr yn ei hystyried yn esiampl i eraill, er gwaethaf ei gollfarn droseddol. Yn hytrach, roedd ei ymddygiad wedi creu amheuon ynglŷn â'i ddidwylledd ac ynglŷn ag unrhyw edifeirwch.

Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod y cynghorydd wedi darparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i'r Ombwdsman a'r pwyllgor safonau hefyd.

Roedd y pwyllgor safonau o'r farn ei bod yn ymddangos bod yma batrwm o ymddygiad a oedd yn gysylltiedig â methu â darparu gwybodaeth lawn neu amharodrwydd i wneud hynny.

Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod y pwyllgor safonau wedi rhoi pob cyfle i'r cynghorydd brofi ei fod yn ddieuog yn ystod gwrandawiad y pwyllgor safonau. Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod y pwyllgor safonau wedi rhoi sylw teilwng i ddatganiad y cynghorydd, ond roedd ffactorau eraill yn troi'r fantol yn erbyn y datganiad gan gynnwys hygrededd y cynghorydd. Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod y pwyllgor safonau wedi rhoi ystyriaeth gymesur briodol ac wedi rhoi sylw teilwng i'r holl ffeithiau wrth benderfynu ar gosb y cynghorydd.

Yn unol â hynny, penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol i gymeradwyo penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn, i wahardd y cynghorydd, dros dro am 6 mis.

## 3.4 Achosion sy'n Parhau

Erbyn mis Medi 2013, roedd y Panel Dyfarnu wedi dyfarnu ar ddau achos yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac roedd 3 achos arall yn parhau. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o achosion posibl o dorri codau ymddygiad, megis peidio â dangos parch, ceisio camddefnyddio eu swydd fel aelod, bygwth a bwlio gweithwyr y cyngor a gwneud honiadau cyhoeddus di-sail am swyddogion.

Ceir rhagor o wybodaeth am achosion sydd wedi'u cwblhau yn adroddiadau penderfyniadau'r tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar wefan y Panel: www.paneldyfarnucymru.org.uk

# 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU (yr olaf mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflwyno eu hachos a bod yr achos hwnnw'n cael yr ystyriaeth lawnaf a thecaf sy'n bosibl.

Fel rheol, bydd cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau arall yn aelodau o dribiwnlys. Gellir amrywio hyn yn ôl disgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus ac eithrio os yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidio buddiannau cyfiawnder, neu os yw'r ymatebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. O bryd i'w gilydd, gall fod rhesymau eraill dros beidio â chynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn gyhoeddus.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau yn ardal yr awdurdod perthnasol os oes yno le addas. Mae trefniadau'r gwrandawiadau'n ystyried unrhyw ofynion arbennig sydd gan y rhai a fydd yn bresennol mynediad i gadair olwyn, cyfieithydd, cymorth clyw, ac ati.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i rai sy'n dymuno i wrandawiad tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg.

Mae gan y sawl y gwnaed yr honiadau amdano hawl i roi tystiolaeth, i alw ar dystion, i holi unrhyw dystion ac i annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n ymwneud â'r honiadau dan sylw.

Cyhoeddir manylion gwrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel sy'n briodol.

Mae'n bosibl gofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl ond, fel corff cyhoeddus, gellir cynnal adolygiad barnwrol o'r Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd lle bo hynny'n briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu.

# 5. Yr Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Leon Mills, Cofrestrydd y Panel

Cyfeiriad y Panel yw:
Panel Dyfarnu Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Ffôn: 01597 829805
Ffacs: 01597 829801

E–bost: adjudicationpanel@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.adjudicationpanelwales.org.uk

# Atodiad

## Crynodeb o'r Cosbau a Bennwyd gan y Tribiwnlysoedd Achos a'r Tribiwnlysoedd Apêl yn y Cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2013

| Cosb | Cyfnod | Nifer y penderfyniadau |
|---|---|---|
| Tribiwnlysoedd Achos ac Apêl | | |
| Anghymhwyso | 5 mlynedd | 1 |
| | 3 blynedd | 2 |
| | 2 flynedd a 6 mis | 1 |
| | 2 flynedd | 1 |
| | Blwyddyn a 6 mis | 1 |
| | Blwyddyn | 3 |
| Gwahardd | 12 mis | 7 |
| | 9 mis | 3 |
| | 6 mis | 7 |
| | 4 mis | 1 |
| | 3 mis | 2 |
| | 2 mis | 4 |
| | 1 mis | 3 |
| Gwahardd yn rhannol | 3 mis | 1 |
| | 7 wythnos | 1 |
| Cerydd | - | 6 |
| Torri'r cod – dim camau | - | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Heb dorri'r cod | - | 4 |
| Wedi eu tynnu yn ôl | - | 2 |
| **Apeliadau** | | |
| Cadarnhau/gwrthod y dyfarniad | 10 (91%)/1 (9%) | |
| Cadarnhau'r gosb | 8 | |
| Argymell cosb wahanol | 1 cynnydd/1 gostyngiad | |
| Heb dderbyn<br>• Rhy ddiweddar<br>• Heb fod o fewn awdurdodaeth | <br>1<br>1 | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, IONAWR, 2014** |
| **PWNC** | **COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH I AELODAU** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Ionawr, 2013 cynigiodd y Pwyllgor Safonau ddiwygiadau i'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau. Cyflwynwyd y Protocol diwygiedig i'r Cyngor llawn ar yr 2il o Fai ac fe'i cymeradwywyd.

2. Yn lled ddiweddar anfonwyd copi o'r Protocol at bob Cyngor Cymuned. Gwnaed hynny ar gais y Pwyllgor Safonau ac fel dogfen enghreifftiol iddynt ei mabwysiadu pe baent yn dymuno.

3. Mae'r Protocol yn cynnig canllawiau i gynorthwyo aelodau i gadw at y Côd Ymddygiad sy'n datgan ym mharagraff 17 .... "Rhaid i chi o fewn 28 o ddiwrnodiau ar ôl i chwi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef a'i peidio."

4. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol hwn er mwyn adrodd i'r Pwyllgor ar y datganiadau sydd wedi eu cofrestru yn unol â'r Côd Ymddygiad yn y cyfnod rhwng Mai 2012 a Rhagfyr 2013. Mae dadansoddiad o'r datganiadau i'w gael yn yr Atodiad.

5. Yn ogystal â dadansoddi'r datganiadau a wnaed gan aelodau'r Cyngor Sir, anfonwyd holiadur i'r holl Gynghorau Cymuned. Allan o'r 65 Cyngor Cymuned yng Ngwynedd derbyniwyd ymateb gan 29 ohonynt ac mae dadansoddiad o'u hatebion i'w gael yn yr Atodiad.

6. Wrth drafod y Protocol Rhoddion a Lletygarwch yn Ionawr 2013 roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd yn briodol gosod y gofrestr ar wefan y Cyngor er ei bod yn ddogfen fyddai ar gael pe bai aelod o'r cyhoedd yn cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth.

7. Erbyn hyn mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i roi'r gofrestr buddiannau ar we er nad yw'r rhan honno o'r ddeddf eto wedi dod i rym. Fodd bynnag, nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**ARGYMHELLIAD.**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor :-

(i) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad;

(ii) gynnig unrhyw sylwadau ar yr adroddiad;

(iii) gynnig arweiniad pellach ynglŷn â chyhoeddi'r gofrestr ar wefan y Cyngor.

**ATODIAD.**

## COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU CYNGOR GWYNEDD 2012 – 2017.

| Dyddiad ar y ffurflen/ e-bost | Rhodd/Lletygarwch a ddatganwyd | Derbyniwyd/ Gwrthodwyd | Gwerth. |
|---|---|---|---|
| 14.11.12 | Gwahoddiad Swper yng Ngwesty'r Celt gan Gyngor Celfyddydau Cymru | Derbyniwyd | Dros £25. |
| 14.11.12 | Gwahoddiad tocyn a lluniaeth ar gyfer Gêm Rygbi 6 Gwlad yng Nghaerdydd 17.3.12 gan S4C | Gwrthodwyd | Dros £25 |
| 02.05.13 | Gwahoddiad Cinio yng Ngwesty Port Meirion 23, Ebrill 2013 gan German Industry U.K. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 23.09.13 | Saffrwn, Cyri hefo reis, gorchudd clustod a "lighter" gan aelod o'r cyhoedd | Derbyniwyd | Dan £25. |

## COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU CYNGHORAU CYMUNED 2012 - 2017.

| | |
|---|---|
| Nifer y cynghorau ymatebodd i'r holiadur | 29 |
| Nifer y cynghorau sy'n cadw cofrestr rhoddion a lletygarwch | 10 |
| Nifer y datganiadau a wnaed ers Mai 2012 | 0. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, IONAWR, 2014** |
| **PWNC** | **Y GOFRESTR FUDDIANNAU.** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GOFRESTR FUDDIANNAU A'R DATGANIADAU A WNAED YN YSTOD Y FLWYDDYN GAN AELODAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Un o'r materion yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ydi derbyn adroddiad blynyddol ar Gofrestr Fuddiannau aelodau etholedig a'r datganiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Gan mai hwn yw'r adroddiad cyntaf, mae'n cynnwys y cyfnod o Fai 2012 i Ragfyr 2013.

2. Dywed y Côd Ymddygiad i Aelodau bod raid i Gynghorwyr ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod y maent ynddo, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Dywed ymhellach bod raid rhoi hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion y buddiant, manylion y busnes a llofnod.

3. Mae'r Côd Ymddygiad hefyd yn dweud bod yn rhaid i aelodau o fewn 28 dydd ar ôl cael eu hethol, gofrestru eu buddiannau ariannol a'u buddiannau personol drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, a bod rhaid darparu hysbysiad o unrhyw newid i'r buddiannau rheini.

4. Er mwyn cynorthwyo aelodau i gadw at ofynion y Côd Ymddygiad, mae'r Cyngor wedi darparu dwy ffurflen, un sydd yn addas ar gyfer y cofrestru ymlaen llaw a'r llall ar gyfer cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd. Mae'r datganiadau a wneir gan y ddwy ffurflen yn cael eu cynnwys yn y gofrestr fuddiannau a gedwir.

5. Mae'r gofrestr fuddiannau yn ddogfen gyhoeddus ac mae deddfwriaeth ddiweddar, nad yw eto wedi dod i rym, yn datgan y dylid ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gan mai casgliad o ffurflenni sy'n ffurfio'r gofrestr ar hyn o bryd, mae angen ystyried ar ba ffurf y dylai gael ei chyhoeddi.

6. Gwnaed archwiliad o'r gofrestr o ran y ffurflenni cofrestru ymlaen llaw a'r ffurflenni datgan mewn cyfarfodydd, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn yr atodiad. Gwnaed archwiliad pellach ar sampl o'r ffurflenni datgan mewn cyfarfodydd i weld a oeddynt yn cyd-fynd gyda'r datganiadau yn y cofnodion, a gwnaed hefyd archwiliad ar sampl o gofnodion cyfarfodydd i weld a oes ffurflenni datgan wedi eu cofrestru ar gyfer y buddiannau gafodd eu datgan ar lafar. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn yr atodiad.

7. Ar gais y Pwyllgor Safonau, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys arolwg o gofrestr buddiannau cynghorau cymuned. Anfonwyd holiadur i'r holl gynghorau cymuned. Allan o'r 65 cyngor, derbyniwyd ymateb gan 29 ac mae dadansoddiad o'r atebion i'w gael yn yr atodiad.

8. Yn lled ddiweddar yn dilyn sesiwn hyfforddiant i glercod cynghorau cymuned trosglwyddwyd copïau o ddogfennau cofrestru buddiannau y Cyngor Sir iddynt er ei defnydd. Dylid nodi, mewn perthynas â chynghorau cymuned, nad yw yn ofynnol iddynt, dan y Côd Ymddygiad, i gadw y gofrestr datgan ymlaen llaw er y gwelir fod nifer yn dewis gwneud hynny yn wirfoddol.

**ARGYMHELLIAD.**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor :

(a) dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad;

(b) gynnig unrhyw sylwadau ar gamau i'w cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau;

(c) gynnig sylwadau ar y ffurf orau o gyhoeddi’r gofrestr ar y we.

**ATODIAD.**

## COFRESTR BUDDIANNAU CYNGOR GWYNEDD.

| | |
|---|---|
| Nifer y datganiadau o fuddiant a wnaed mewn cyfarfodydd rhwng Mai 2012 a Rhagfyr 2013 | 185 |
| Nifer y datganiadau o fuddiant oedd yn rhagfarnu | 37 |
| Nifer y datganiadau sy'n honni'n goddefeb gan y Pwyllgor Safonau. (*Nodyn* - nid oes goddefeb wedi ei chaniatáu ar gyfer yr un o'r rhain) | 6 |
| Sampl a archwiliwyd | 20 |
| Nifer a gafwyd wedi eu cwblhau'n gywir | 20 |

## COFRESTR BUDDIANNAU CYNGHORAU CYMUNED.

| | |
|---|---|
| Nifer y cynghorau a ymatebodd i'r holiadur | 29 |
| Nifer sy'n cadw cofrestr fuddiannau | 24 |
| Nifer sy'n cofnodi buddiannau ar ddechrau tymor y Cyngor | 3 |
| Nifer sy'n cofnodi buddiannau yn ystod cyfarfodydd | 25 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, IONAWR, 2014** |
| **PWNC** | **SAFON GWYNEDD A'R DREFN DDATRYS LEOL** |
| **PWRPAS** | **DERBYN ADRODDIAD AR WEITHREDIAD SAFON GWYNEDD AC ADOLYGU'R DREFN DATRYS LEOL** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Mabwysiadwyd Safon Gwynedd (a welir yma fel Atodiad 1) gan y Cyngor Llawn ar 21, Hydref, 2010 yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Safonau. Ei bwrpas oedd sefydlu safon dderbyniol o ymddygiad rhwng aelodau a'i gilydd a chynorthwyo'r Cyngor i ddatrys mân gwynion o gamymddwyn, sef y cwynion rheini nad oeddynt yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon fel materion oedd yn torri'r Côd Ymddygiad.

2. Ochr yn ochr â Safon Gwynedd mabwysiadwyd Trefn Ddatrys Leol (a welir yma fel Atodiad 2). Hon oedd yn rheoli unrhyw honiadau bod aelod wedi torri'r Protocol Aelod/Swyddog ac fe'i diwygiwyd i'w gwneud yn berthnasol i gwynion dan Safon Gwynedd hefyd.

3. Erbyn hyn dan anogaeth gref gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru, mae'r mwyafrif, os nad y cyfan, o gynghorau wedi mabwysiadu rhyw ffurf ar Drefn Ddatrys Leol. Mae'n amserol i'r Pwyllgor edrych eto ar y drefn i weld os yw'n parhau'n addas.

4. Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2012 a Rhagfyr 2013 cafwyd 19 o gwynion yn erbyn aelodau'r Cyngor Sir. O'r rhain mae pedair ohonynt fyddai yn addas i'w hystyried dan y Dref Ddatrys Leol, gan eu bod yn gwynion gan aelod am ymddygiad aelod arall oedd yn torri Safon Gwynedd.

5. Mae un o'r cwynion yn parhau yn agored ac yn destun ymchwiliad gennyf i dan Safon Gwynedd. Trosglwyddwyd un gŵyn arall ar gais yr achwynydd i'r Ombwdsmon ac fe benderfynodd yr Ombwdsmon beidio cynnal ymchwiliad. Yn sgil hynny mae'r achwynydd wedi penderfynu nad yw yn dymuno cael unrhyw weithrediad pellach. Ymchwiliais i drydydd cŵyn dan Safon Gwynedd a deuthum i'r casgliad nad oedd sail iddi. Fe eglurais hynny wrth yr achwynydd, ac er nad oedd yn fodlon, nid yw'r mater wedi mynd ymhellach.

6. Mewn perthynas â'r bedwerydd gŵyn, cynhaliais gyfarfod lle 'roedd yr achwynydd a'r sawl y cwynwyd yn ei erbyn yn bresennol, a chawsant gyfle i drafod yr anghydfod. Er na chafwyd cytundeb ar ffeithiau'r gŵyn cafwyd lled gnytundeb ar y ffordd ymlaen, a phenderfynodd yr achwynydd nad oedd am weld unrhyw weithrediad pellach.

7. O'r bedair cwyn fe welir nad oes yr un ohonynt wedi mynd i Gam 3 o'r Drefn, sef gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Y Swyddog Monitro ydi'r swyddog sydd wedi ymdrin â'r cwynion gan gynghori'r aelodau, cynnal ymchwiliadau a/neu gynnal cyfarfodydd cymodi. Fe welwyd hefyd bod angen rhyw gymaint o ymchwilio er mwyn sefydlu a oes unrhyw sail i'r gŵyn cyn symud ymlaen i gynnal cyfarfod, neu hyd yn oed, gwrandawiad gerbon y Pwyllgor Safonau.

8. Yng ngoleuni y profiad hwn, awgrymir fod y Pwyllgor yn ail ymweld hefo'r Drefn Ddatrys Leol er mwyn cyflwyno ychydig mwy o hyblygrwydd i'r gwahanol gamau, ac yn benodol y materion canlynol:

- Pa swyddog sydd yn cynghori ar y gŵyn a/neu ymchwilio iddi.
- Yr angen i gynnal ymchwiliad i sefydlu a oes sail i'r gŵyn cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.
- Yr unigolion ddylai fod yn bresennol mewn cyfarfod cymodi.

**ARGYMHELLIAD.**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor :

(a) nodi a derbyn yr adroddiad;
(b) gynnig diwygiadau i'r Drefn Ddatrys Leol fel a nodir ym mharagraff 8 uchod.

**ATODIAD 1**

# SAFON GWYNEDD.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i'w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i'r Cadeirydd ac ufuddhau i'w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy'n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Os yw'n ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall:
    - Egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn cymorth nad ef/hi yw'r aelod lleol
    - Roi gwybod i'r aelod lleol oni bai y byddai hynny yn torri cyfrinachedd

**ATODIAD 2**

# TREFN DATRYS LEOL CYNGOR GWYNEDD

## TREFN AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU FOD AELOD WEDI TORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG NEU SAFON GWYNEDD

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog yn arf bwysig i hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor a thrwy hynny caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon Gwynedd er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau. Mae'n bwysig felly bod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol gydag unrhyw honiad yn erbyn aelod ei fod wedi torri'r protocol neu'r Safon. Diben y drefn leol hon yw cyflwyno dull syml a hawdd i'w deall i ymdrin â honiadau o'r fath.

### CAM 1 O'R DREFN

2. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gwyn (yn achos swyddog yn dilyn ymgynghoriad gyda'i Bennaeth Adran) at y Swyddog Monitro. Yn dilyn derbyn cwyn bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn :-

3. Yn y lle cyntaf bydd yn cyfeirio'r honiad at naill ai'r Dirprwy Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodoldeb a fydd yn cynnig cyngor cyffredinol i'r achwynydd. Ar y cam yma bydd modd cynghori os yw'r honiad yn dod o fewn y drefn hon, ynteu a ddylid ei chyfeirio at yr Ombwdsmon fel honiad o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau. Ni fydd y Swyddog Monitro yn ymdrin â'r honiad ar y cam yma er mwyn gwarchod ei gallu i roi cyngor i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach yn y broses.

4. Os yn dilyn y cam cyntaf y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater, naill a'i i gyfarfod cymodi dan Gam 2 neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.

### CAM 2 O'R DREFN

5. Yng ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn, Arweinydd y Grŵp Gwleidyddol perthnasol a'r Prif Weithredwr a/neu'r Swyddog Monitro. Mae modd i swyddog gael cydweithiwr neu uwch swyddog o'r adran yn bresennol gydag ef/hi. Mae hefyd yn bosib ymdrin â'r mater yn absenoldeb swyddog mewn achosion eithriadol. Bwriad y cyfarfod yma fydd ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach. Pe tybid byddai angen, gall y Prif Weithredwr alw ar gymorth gan y Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodoldeb i gynghori.

**CAM 3 O'R DREFN**

6. Y trydydd Cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarperir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Safonau.

7. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gwyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Ni dderbynnir dystiolaeth ysgrifenedig yn unig gan dyst heb gytundeb yr ochr arall. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd y Cyngor yn talu cost cynrychiolwyr.

8. Pe byddai'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio bod yn bresennol, neu yn methu ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

9. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed gofynnir i'r ddwy ochor a'u cynrychiolwyr adael yr ystafell a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i benderfyniad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.

10. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef :-

   a) Nad oes sail i'r honiad
   b) Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
   c) Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r Aelod.

   Yn ychwanegol fe all y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

**MATERION ATODOL**

11. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau y partïon oni bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithriedig.

12. Nid oes raid dilyn camau 2 a 3 mewn trefn. Er bod modd i achwynydd sydd yn parhau yn anfodlon wedi y cyfarfod cymodi ofyn am i'r mater gael ei gyfeirio i wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosib i fater fynd yn syth gerbron Pwyllgor Safonau heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf. Mae'n bosib i aelod gynnig ymddiheuriad unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad ond pe byddai'r gwrandawiad wedi ei drefnu a bod yr achwynydd yn dymuno peidio parhau â'i gwyn bydd angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddiddymu'r gwrandawiad.

13. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri y Côd Ymddygiad. Fe allai' Ombwdsmon, os yw o'r farn fod achos i'w ateb, gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau, neu at Banel Dyfarnu Cymru, sydd â'r hawl i ddiarddel aelod am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

| Pwyllgor : | PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **27 Ionawr 2014** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 201300346**

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau

**2.2 Achos 3982/201301430**

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir yn caniatáu sylwadau sarhaus ac enllibus ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Ystyried os yw am ymchwilio.

**2.3 Achos 201301307**

**<u>Cwyn</u>**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.4 Achos 201301629**

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o'r cyngor.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.5 Achos 4414/201301916**

**<u>Cwyn</u>**

Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio ar sail materion a ddaeth ar eu traws wrth ymchwilio i gŵyn arall yn erbyn y cynghorydd (para 2.1 uchod):

- Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod
- Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o'i rôl fel cynghorydd
- Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.6 Achos 201303060**

**Cwyn**

Cwyn yn erbyn cynghorydd tref, gan aelod o'r cyhoedd sy'n byw drws nesaf iddo:

- Yn achosi poen meddwl iddo drwy ddechrau dadleuon am faterion dibwys
- Wedi gwneud cwynion di-sail amdano i'r gwasanaeth Iechyd Amgylchedd
- Wedi bygwth defnyddio ei ddylanwad fel cynghorydd i gael llinellau gwyn wedi eu tynnu o du allan ei dŷ

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Roedd yn ymddangos fod yr achwynydd yn disgrifio anghydfod rhwng cymdogion a bod y cynghorydd yn gweithredu fel unigolyn preifat . Nid oedd tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r honiad y ei byddai'n defnyddio ei ddylanwad fel cynghorydd.

**2.7 Achos 201302762**

**Cwyn**

Bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad drwy gyfleu cynnig ariannol ar ran cwmni lleol, tra'n ymwybodol ei fod yn uwch na chynnig gan gwmni arall. Hefyd, ei fod wedi gwneud datganiad nad oedd yn wir. Roedd yr achwynydd yn anhapus gyda'r modd yr oedd y cynghorydd wedi ymyrryd yn y mater.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Diffyg tystiolaeth uniongyrchol. Tra bod yr aelod wedi cyfleu'r cynnig perthnasol, nid oedd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol ei fod yn ymwybodol o'r cynnig arall na bod y datganiad yn anwiredd bwriadol.

**3. Achosion fu gerbron y Pwyllgor Safonau**

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gŵyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012. Mae'r Cynghorydd wedi apelio i Banel Dyfarnu Cymru. Bydd y Panel yn ystyried yr apêl ar 17 Ionawr 2014 ar sail papurau a gyflwynwyd yn unig, h.y. heb wrandawiad.

**4. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, IONAWR, 2014** |
| **PWNC** | **PROTOCOL CYSWLLT AELOD/SWYDDOG** |
| **PWRPAS** | **YSTYRIED DIWYGIADAU I'R PROTOCOL.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai, 2014 bydd y Cyngor yn ystyried mabwysiadu Cyfansoddiad newydd. Bydd y Cyfansoddiad hwn wedi ei lunio ar sail y Cyfansoddiad Safonol Modylaidd sydd wedi ei baratoi ar gyfer holl Gynghorau Cymru.

2. Un o'r dogfennau sydd yn ffurfio Cyfansoddiad y Cyngor ydi'r Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog.

3. Edrychodd y Pwyllgor Safonau ar y Protocol hwn ar y 23ain o Fehefin 2009 gan argymell rhai diwygiadau i'r Protocol oedd mewn bodolaeth ar y pryd. Mabwysiadodd y Cyngor y diwygiadau rheini yn ei gyfarfod yng Ngorffennaf 2009.

4. Pwrpas y Protocol ydi rheoli'r cyswllt a'r berthynas rhwng aelodau'r Cyngor a'r swyddogion. Mae'n cynnwys materion yn ymwneud ag ymddygiad, ond hefyd rolau gwahanol yr aelodau a'r swyddogion a chanllawiau ar gyfer cynghori a throsglwyddo gwybodaeth i aelodau tra'n parchu didueddrwydd gwleidyddol y swyddogion.

5. Ers mabwysiadu'r Protocol yn 2009, mae rhai newidiadau wedi digwydd, yn benodol mae'r Cyngor wedi newid i drefn lywodraethu Arweinydd a Chabinet ac mae yna hefyd ddatblygiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yng Nghymru, megis sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6. Yng ngoleuni hyn a'r ffaith fod y Cyngor yn adolygu'r Cyfansoddiad yn ei gyfanrwydd, mae'n amserol ail edrych ar y Protocol. Rwyf wedi ystyried y Protocol safonol sydd yn y Cyfansoddiad Modylaidd ochr yn ochr â phrotocol presennol y Cyngor. Mae cynnwys y ddau yn eithaf tebyg er bod eu geiriad yn dra gwahanol.

7. 'Rwy'n argymell i'r Pwyllgor Safonau eu bod yn cymeradwyo'r Protocol Safonol sydd yn y Cyfansoddiad Modylaidd newydd i'r Cyngor i'w fabwysiadu, ond gyda rhai diwygiadau er mwyn cynnwys ynddo y materion rheini ym Mhrotocol presennol y Cyngor sydd o bwys mwyaf i'r

pwyllgor. Mantais hyn ydi y bydd y Protocol wedi ei ddiweddaru i fod yn addas i ddibenion y Cyngor presennol, a bydd hefyd mewn ffurf safonol gyda chynghorau eraill Cymru.

8. Yn Atodiad 1 ceir y Protocol safonol newydd. Y rhannau sydd wedi eu lliwio yn llwyd ynddo ydi'r diwygiadau yr wyf wedi eu hychwanegu er mwyn cynnwys y materion a ystyrir yn bwysig o'r Protocol presennol. Mae'r Protocol presennol yn Atodiad 2 er cymhariaeth.

**ARGYMHELLIAD.**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddau Brotocol ac yna argymell y ffurf newydd o Brotocol i'r Cyngor ei fabwysiadu gydag unrhyw ddiwygiadau pellach y dymuna'r Pwyllgor eu cynnwys.

**ATODIAD 1**

**ADRAN 21**

**PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION**

1.1 **Cyflwyniad**

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

1.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

1.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

1.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

1.5 **Rolau Aelodau**

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

1.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

1.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

1.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

1.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

1.5.5 Mae Aelodau'n helpu i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

1.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

1.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu Haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

*"Rhaid i chi –*

*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*

*(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*

*(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*

*(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

1.6 **Rolau Cyflogeion**

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

1.6.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

1.6.2 Cynghori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.

1.6.3 Cychwyn cynigion polisi.

1.6.4 Gweithredu polisi cytunedig.

1.6.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:

*"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.*

*4. Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*

*5. Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd."*

1.7 **Parch a Chwrteisi**

1.7.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono. Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn mannau cyhoeddus.

1.7.2 Pwysau Gormodol

(a) Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.

(b) Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

(c) Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.

(d) Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

(ch) Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogeion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogeion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

1.7.3 Bwlio neu harasio

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd. Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

1.7.4 Cyfeillgarwch

(a) Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.

(b) Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuon ynglŷn â ffafriaeth.

(c) Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.

(d)

1.8 **<u>Rhoi Cyngor a Gwybodaeth i Aelodau</u>**

1.8.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.

1.8.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.

1.8.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon a, sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn neu, os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn [pum] diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad.

1.8.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.

1.8.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrff y Cyngor.

1.8.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.

1.8.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.

1.8.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).

1.8.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r [Cabinet] [y Weithrediaeth] neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.

1.8.10 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol

diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.

1.8.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail "angen gwybod". Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd [*rhowch deitl*] y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, ynglŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

1.8.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

1.8.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

## 1.9 <u>Cyfrinachedd</u>

1.9.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

(a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;

(b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;

(c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu

(ch) fod y datgeliad:

(i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac

(ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

1.9.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

1.9.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

1.9.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

1.9.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.

1.9.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

## 1.10 <u>**Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau**</u>

1.10.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopïo, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

1.10.2 <u>Gohebiaeth</u>

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r LLywodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

1.10.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

1.10.4 Y Cyfryngau

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

## 1.11 Rôl y Cyngor fel Cyflogwr

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

## 1.12 Gweithgarwch Gwleidyddol

1.12.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

1.12.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

(a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;

(b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);

(c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:

(i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu

(ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;

(ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);

(d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a

(dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i

unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.

1.12.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cynghori grwp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt sy'n wleidyddol ddiduedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth bleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

1.12.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol.

## 1.13 **Torri'r Protocol**

(a) Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

(b) Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i r(h)eolwr llinell a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

## 1.14 **Casgliad**

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng Aelodau a Chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cyd-ddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y Cyngor, ei Aelodau a'i Gyflogeion.

# PROTOCOL AR GYFER CYSYLLTIADAU AELOD / SWYDDOG

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y protocol hwn yw rhoi arweiniad i aelodau a swyddogion y Cyngor yng nghyd-destun eu cysylltiad â'i gilydd.

1.2 Ceisia'r protocol hwn gynnig arweiniad ar rai o'r materion sy'n codi amlaf. Serch hynny, gobeithir y bydd y dull o ymdrin â sefyllfaoedd sydd wedi ei fabwysiadu yma yn ddefnyddiol fel arweiniad i ymdrin â materion eraill.

1.3 Ceisia'r protocol hwn hybu mwy o eglurder a sicrwydd. Os dilynir ef, dylai sicrhau bod aelodau yn cael cyngor gwrthrychol a diduedd, a bod swyddogion yn cael eu hamddiffyn rhag cyhuddiadau o ragfarn a dylanwad gormodol.

1.4 Yr egwyddorion sylfaenol wrth wraidd y protocol hwn yw:-

- Dealltwriaeth gan aelodau a swyddogion o ofynion swyddogaethau gwahanol y naill a'r llall.
- Parch at amser a blaenoriaethau'r naill a'r llall.
- Cwrteisi a sensitifrwydd ar bob adeg.

Hefyd, ceisia adlewyrchu'r egwyddorion sydd wrth wraidd y Codau Ymddygiad sy'n berthnasol i aelodau a swyddogion. Bwriad cyffredin y codau hyn yw gwella a chynnal uniondeb (gwir ac ymddangosiadol) llywodraeth leol, ac felly maent yn galw am safonau uchel o ran ymddygiad personol.

1.5 Mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer aelodau yn datgan ym mharagraff 4:-

"Rhaid i chi –

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."

Mae'r Côd Ymddygiad statudol i swyddogion, sy'n ffurfio rhan o'u cytundebau cyflogaeth, yn datgan ym mharagraffau 4 a 5 o'r Atodlen:-

"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.

4. Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.

5. Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd."

1.6 Yn unol â'r egwyddor o "gyd-barch", mae'n bwysig bod unrhyw ymwneud rhwng aelodau a swyddogion yn cadw at safonau rhesymol o gwrteisi, ac ni ddylai'r naill barti na'r llall geisio cymryd mantais annheg o'u sefyllfa. Bydd defnyddio bygythiadau, brawychiaeth neu anfri llafar yn cael eu hystyried fel achosion difrifol o dor-brotocol.

1.7 Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.

1.8 Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd. Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, neu yn gyhoeddus mewn unrhyw fodd arall (e.e. e-bost neu ryngrwyd), heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno. Wrth drafod materion y Cyngor yn gyhoeddus ni ddylai aelod enwi swyddog penodol.

2. **Cyngor Swyddogion i Aelodau.**

2.1 Cyflogir swyddogion awdurdod lleol gan y Cyngor ac maent yn atebol i'r Cyngor fel corff. Mae arnynt ddyletswydd i bob aelod unigol ac nid i grŵp gwleidyddol, hyd yn oed os yw yn y mwyafrif. Hefyd, mae ganddynt ddyletswydd ehangach i'r cyhoedd yn gyffredinol.

2.2 Erbyn hyn, mae cydnabyddiaeth statudol i grwpiau gwleidyddol, ac mae'n arfer cyffredin i grwpiau o'r math yma roi ystyriaeth ragarweiniol i faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor cyn i'r materion hynny gael eu hystyried gan y corff perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gellir galw'n briodol ar gyfarwyddwyr neu benaethiaid i gynghori cadeiryddion neu lefarwyr grwpiau gwleidyddol, ond ni ddylent fynychu cyfarfodydd grŵp ond mewn amgylchiadau eithriadol a phryd hynny dylai'r grwpiau gwleidyddol eraill gael gwybod am y cyngor a roddwyd a chael cynnig i dderbyn yr un cyflwyniad. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grŵp gwleidyddol.

2.3 Serch hynny, mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y math yma o broses ddeall rhai pwyntiau penodol yn glir, yn aelodau a swyddogion fel ei gilydd. Yn arbennig:-

(a) rhaid i gefnogaeth swyddogion dan yr amgylchiadau hyn beidio ag ymestyn y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â materion busnes y Cyngor. Rhaid i swyddogion beidio â chynghori ar faterion yn ymwneud â busnes y grŵp gwleidyddol;

(b) tra bod cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol yn ffurfio rhan o'r gwaith rhagarweiniol cyn i'r Cyngor wneud penderfyniadau, nid oes ganddynt rym i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Felly, nid yw'r casgliadau y deuir iddynt mewn cyfarfodydd o'r math yma yn cael eu cyfrif fel penderfyniadau'r Cyngor, ac mae'n hanfodol nad ydynt yn cael eu dehongli felly ac na weithredir arnynt yn y modd hwnnw; ac

(c) yn yr un modd, pan fo swyddogion yn cynnig gwybodaeth a chyngor i gadeirydd neu lefarydd grŵp gwleidyddol mewn perthynas ag unrhyw fater yn ymwneud â busnes y Cyngor, ni all hyn weithredu yn lle darparu'r holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor perthnasol pan ystyrir y mater dan sylw.

2.4 Dylid codi unrhyw achosion penodol o anhawster neu ansicrwydd yn y maes hwn , sef cyngor swyddogion i grwpiau gwleidyddol efo'r Prif Weithredwr, a bydd ef yn trafod y rhain efo'r arweinwyr grŵp perthnasol.

2.5 Ceir darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â cheisiadau cynllunio yn y Côd Ymarfer Cynllunio yn Rhan 5 o'r cyfansoddiad hwn.

3. **Gwasanaethau cefnogol i aelodau a grwpiau gwleidyddol.**

3.1 Dim ond ar sail cynorthwyo'r aelodau i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau'r Cyngor y caiff y Cyngor ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gyfreithlon (e.e. defnyddiau ysgrifennu, teipio, argraffu, llungopïo, cludiant, technoleg gwybodaeth a.y.b.). Felly, dim ond wrth gyflawni busnes y Cyngor y dylid defnyddio gwasanaethau cefnogol o'r fath. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgaredd gwleidyddol plaid na gweithgaredd ymgyrchu nac at amcanion preifat.

4. **Mynediad aelodau at wybodaeth a swyddogion.**

4.1 Mae gan yr aelodau ryddid i fynd at unrhyw adran yn y Cyngor a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth, eglurhad a chyngor (ynghylch swyddogaethau'r adran) sydd ei angen arnynt o fewn rheswm i'r cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynghylch unrhyw agwedd o weithgareddau'r adran i gais am wybodaeth benodol ar ran etholydd. Gan gofio gofynion y ddeddfwriaeth ar ddiogelu data dylai unrhyw gais am wybodaeth bersonol yn ymwneud ag etholydd gael ei gefnogi gan awdurdod ysgrifenedig yr etholydd. Fel arfer, dylid cyfeirio unrhyw geisiadau fel hyn at y prif swyddog neu uwch swyddog arall yn yr adran dan sylw.

4.2 Mae gan y pwyllgorau craffu yr hawl i fynnu bod rhai swyddogion yn ymddangos o'u blaenau. Ceir manylion y drefn hon yn y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

4.3 Mae i aelodau fedru cysylltu â swyddogion perthnasol yn allweddol i'w gwaith.

4.4 Fodd bynnag, ni fydd bob amser yn bosib i aelod gysylltu â swyddog ar adeg sydd yn hwylus iddo/iddi. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio gwneud y defnydd gorau o amser aelodau a swyddogion ill dau.

4.5 Fel mater o egwyddor dylai aelod bob amser geisio cysylltu ymlaen llaw gydag unrhyw swyddog y mae'n dymuno ei weld. Mae gwneud hynny yn sicrhau bod y swyddog ar gael ac yn galluogi'r swyddog i baratoi i ateb unrhyw gwestiynau fyddai gan yr aelod er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfarfod.

4.6 Dylai aelod gyflwyno ei hun bob amser wrth y dderbynfa ble bynnag bo hynny'n ymarferol gan ofyn am y swyddog dan sylw. Mae mater diogelwch personol yn berthnasol yma gan ei bod yn allweddol bod enwau pawb sydd yn bresennol mewn adeilad yn hysbys mewn achos o dân.

4.7 Dylai swyddogion geisio sicrhau, o fewn gofynion rhesymol eu dyletswyddau eraill, eu bod yn barod i ymateb i gais rhesymol am wybodaeth sydd yn berthnasol i waith yr aelod neu am gyfarfod.

4.8 Gall aelodau bob amser gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd neu un o'r swyddogion pwyllgor, sy'n gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer aelodau mewn perthynas ag unrhyw anghenion am wybodaeth ac i dderbyn ymholiadau a'u cyfeirio ymlaen i'r swyddogion perthnasol.

5. **Hawliau aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor.**

5.1 Yng nghyswllt hawliau cyfreithiol yr aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor, mae'r rhain wedi eu cynnwys yn rhannol mewn statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.

5.2 Mae gan aelodau hawl statudol i archwilio unrhyw ddogfen Cyngor sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes a fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor. Mae'r hawl hwn yn berthnasol pa un ai yw'r aelod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor dan sylw ai peidio, ac mae'n cynnwys nid yn unig adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod, ond hefyd unrhyw bapurau cefndir perthnasol. Nid yw'r hawl statudol hwn yn ymestyn at wybodaeth o fewn paragraffau 12 - 18 o Ran 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, byddai'r hawl cyfraith gwlad (gweler isod) yn cael blaenoriaeth 'a fortiori' dros y cyfyngiad hwn.

5.3 Mae hawliau aelodau yn ôl cyfraith gwlad yn llawer ehangach ac yn seiliedig ar yr egwyddor fod gan unrhyw aelod hawl olwg gyntaf i archwilio dogfennau'r Cyngor cyn belled â bod ei angen ef/hi i weld y dogfennau yn rhesymol er mwyn galluogi'r aelod i gyflawni ei (d)dyletswyddau fel aelod o'r Cyngor. Cyfeirir yn gyffredinol at yr egwyddor hon fel yr egwyddor "angen gwybod".

5.4 Mae gweithredu'r hawl cyfraith gwlad hwn yn dibynnu, felly, ar allu'r aelod i ddangos ei fod ef/bod hi "angen gwybod". Yn y cyswllt hwn, nid oes gan aelod unrhyw hawl i "gennad i grwydro" i archwilio dogfennau'r Cyngor. Gellir gwrthod mynediad os yw cymhelliad yr aelod dros weld dogfennau yn anuniongyrchol, amhriodol neu'n guddiedig. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol. Y mater hanfodol yw pennu'r "angen gwybod". Rhaid i bennaeth y gwasanaeth neu gyfarwyddwr strategol, lle cedwir y ddogfen dan sylw wneud y penderfyniad dechreuol (gyda chyngor oddi wrth y Swyddog Monitro. Mewn achos o ddadl, rhaid i'r Swyddog Monitro benderfynu ar y mater hwn. Bydd hawl i apelio i Fwrdd y Cyngor wedi hynny.

5.5 Dan rai amgylchiadau (e.e. aelod pwyllgor yn dymuno archwilio dogfennau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw) bydd angen yr aelod hwnnw/honno i wybod yn cael ei ragdybio. Dan amgylchiadau eraill (e.e. aelod yn dymuno archwilio dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol ynglþn â thrydydd parti) bydd disgwyl i aelod gyfiawnhau'r cais yn fanwl mewn ysgrifen ac yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth diogelu data.

5.6 Gellir cael cyngor pellach a manylach ynglŷn â hawliau aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor oddi wrth y Swyddog Monitro.

5.7 Yn olaf, dim ond i'r pwrpas y bwriadwyd ef y caiff aelod ddefnyddio unrhyw wybodaeth Cyngor a roddwyd iddo/iddi, h.y. mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau fel aelod o'r Cyngor. Mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer aelodau yn datgan ym mharagraff 5;-

"Rhaid i chi –

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny."

5.8 Mae gwybodaeth bellach ar yr hawl i wybodaeth i'w gael yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau sydd yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn ac yn y Côd Ymarfer ar Hawliau Aelodau i gael mynediad at wybodaeth sydd yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

6. **Perthnasau Swyddog/Cadeirydd/Arweinydd Portffolio.**

6.1 Mae'n amlwg yn bwysig y dylid cael perthynas waith agos rhwng cadeirydd y Bwrdd, pwyllgor neu is-bwyllgor, neu arweinydd portffolio a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n adrodd i'r pwyllgor hwnnw. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatáu i'r perthnasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

6.2 Er yr ymgynghorir yn rheolaidd efo Cadeirydd y Bwrdd, cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) neu arweinydd portffolio fel rhan o'r broses o lunio rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf, rhaid cydnabod y bydd dyletswydd ar gyfarwyddwr neu bennaeth gwasanaeth mewn rhai sefyllfaoedd i gyflwyno adroddiad ar fater penodol. Yn yr un modd, y cyfarwyddwr neu'r pennaeth gwasanaeth fydd yn gwbl gyfrifol bob amser am gynnwys unrhyw adroddiad a gyflwynir yn ei enw ef/hi. Dylid cyfeirio unrhyw faterion sy'n codi rhwng cadeirydd a phrif swyddog yn y maes hwn at y Prif Weithredwr am benderfyniad ar y cyd â Chadeirydd y Cyngor.

6.3 Os mai arweinydd portffolio fydd yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Bwrdd, dylai awdur yr adroddiad hwnnw drafod ei gynnwys gyda'r arweinydd portffolio priodol ymlaen llaw.

6.4 Rhaid i arweinyddion portffolio, wrth ymarfer eu hawliau dirprwyedig, ymgynghori â, neu hysbysu y prif weithredwr, swyddog monitro a'r swyddog cyllid (a'r aelod lleol os yn

briodol) yn unol â'r drefn a ddisgrifir yn llawn yn y Cynllun Dirprwyo i Arweinyddion Portffolio yn Rhan 3 o'r cyfansoddiad hwn.

6.5 Yn olaf, rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

7. **Gohebiaeth.**

7.1 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopïau distaw".

7.2 Fel arfer, dylid anfon llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor yn enw'r swyddog priodol yn hytrach nag yn enw aelod. Dan rai amgylchiadau (e.e. sylwadau i Weinidog yn y Llywodraeth), gallai fod yn briodol anfon llythyr yn enw aelod, ond dylai hyn fod yn eithriad yn hytrach na'r arfer. Ni ddylid byth anfon llythyr sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddyd ar ran y Cyngor, yn enw aelod.

8. **Cynnwys Cynghorwyr Wardiau.**

8.1 Dylai pob swyddog bob amser ystyried yr aelodau lleol wrth wneud eu gwaith. Dylid gadael i'r aelodau lleol wybod am unrhyw beth a allai effeithio ar eu ward fel y gellir cymryd eu barn i ystyriaeth wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Dylid gofalu na fydd aelod lleol yn cael gwybod yn gyntaf am rywbeth sy'n digwydd yn ei ward gan ei (h)etholwyr neu yn y wasg!

8.2 Pryd bynnag y trefnir cyfarfod cyhoeddus gan y Cyngor i ystyried mater lleol, dylid estyn gwahoddiad yn ôl yr arfer i'r holl aelodau sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau a effeithir gan hyn i fynychu'r cyfarfod. Yn yr un modd, pryd bynnag y bo'r Cyngor yn ymgymryd ag unrhyw ffurf ar ymarferiad ymgynghorol ynglŷn â mater lleol, dylid hysbysu aelodau'r ward ar ddechrau'r ymarferiad.

9. **Torri'r Protocol.**

9.1 Gallai unrhyw achosion o dor-protocol arwain at gamau disgyblu yn achos swyddogion neu, yn achos unrhyw aelod, at honiad i'r Ombwdsmon ei bod/fod wedi torri'r Cod Ymddygiad neu gyfeirio'r achos at Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

9.2 Petai aelod yn anfodlon ag ymddygiad swyddog, dylai yn y lle cyntaf drafod y mater gyda'r pennaeth gwasanaeth perthnasol er mwyn ceisio datrys y mater. Ni fydd trefn disgyblu'r Cyngor o reidrwydd yn berthnasol a/neu briodol ym mhob amgylchiad ond bydd y pennaeth perthnasol yn troi at y drefn honno mewn achosion priodol. Wrth ymdrin â mater felly gallai'r pennaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ymgynghori â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Cadeirydd y Cyngor neu'r arweinydd grŵp perthnasol.

9.3 Petai aelod yn anfodlon ag ymateb swyddog i gais am wybodaeth neu wasanaeth dylai yn y lle cyntaf gyfeirio hynny at y pennaeth perthnasol. Petai'n parhau'n anfodlon ag ymateb y pennaeth gall gyfeirio'r mater at yr arweinydd portffolio perthnasol. Bydd yr arweinydd portffolio yn ymchwilio i'r cais a'r ymateb iddo ac yn dod i benderfyniad ar y mater.

9.4 Yn yr un modd, petai swyddog yn anfodlon ag ymddygiad aelod dylai yntau hefyd godi'r mater yn y lle cyntaf gyda'i bennaeth adran er mwyn ceisio datrys y mater gyda'r aelod heb yr angen i ddefnyddio'r gyfundrefn ffurfiol a allai arwain at y Pwyllgor Safonau.

9.5 Os bydd swyddog yn parhau'n anfodlon gall gyfeirio'i gwyn at y drefn a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer ymdrin ag achlysuron o dorri'r protocol gan aelodau a gall hyn yn y pen draw arwain at gerydd gan y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn disodli hawl y swyddog, fel unrhyw unigolyn arall, i wneud cwyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27 IONAWR, 2014** |
| **PWNC** | **PROTOCOL AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN GYNGHORWYR** |
| **PWRPAS** | **CYMERADWYO PROTOCOL DRAFFT ER YSTYRIAETH** |
| **AWDUR** | **ARWEL E JONES, UWCH REOLWR COMISIYNU CORFFORAETHOL** |

1. Mae'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno yn y gorffennol ar yr angen i gael protocol ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan gynghorwyr ac wedi cytuno i sefydlu Grwp Tasg ar y cyd gyda thri aelod o'r ddau bwyllgor i drafftio protocol o'r fath.

2. Mae'r Grwp Tasg wedi cyfarfod ar ddau achlysur. Yn ogystal mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cael trafodaeth gychwynol ar y cynnwys ac wedi cynnig rhai awgrymiadau sydd wedi cael sylw gan y Grwp Tasg. Mae'r drafft diweddaraf wedi ei atodi i'r adroddiad hwn er ystyriaeth gan y Pwyllgor.

3. Pan yn dosbarthu'r drafft hwn i'r pwyllgor, bydd aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democartaidd hefyd yn cael copi gan wahodd unrhyw sylwadau pellach ganddynt i'w cyflwyno er ystyriaeth y Pwyllgor Safonau.

4. Ar ôl i'r Pwyllgor hwn gynnig unrhyw newidiadau, y cam nesaf yw y bydd y fersiwn nesaf o'r drafft, wedi ei ddiwygio, yn cael ei rannu gyda phob cynghorydd i geisio eu sylwadau cyn cyflwyno'r protocol arfaethedig i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6ed Mawrth, 2014.

5. Rwy'n argymell y bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir trwy hynny yn cael eu hystyried gen innau a'r Swyddog Monitro a'n bod yn cytuno unrhyw newidiadau gyda'r ddau gadeirydd er mwyn ei gyflwyno'n weddol sydyn i'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf.

**CYNGOR GWYNEDD**

**PROTOCOL AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN GYNGHORWYR**

**RHAGARWEINIAD**

1. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd pwysig o gyfathrebu mewn cymdeithas heddiw a maent yn newid y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu a rhwydweithio. Mae'r newid hwn yn cynnig llwyfan newydd ar gyfer ymgysylltu, cyfathrebu a gwrando. O ganlyniad, mae'n naturiol bod y newid hwnnw yn effeithio'r modd y mae'r Cyngor yn cysylltu â dinasyddion y sir a hefyd y modd y mae cynghorwyr yn gweithredu.

2. Mae'r Cyngor yn croesawu'r defnydd cynyddol aelodau o'r cyfyngau cymdeithasol ac yn dymuno hwyluso hynny trwy gynnig arweiniad a chefnogaeth briodol. Mae'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a Safonau y Cyngor yn cydnabod yr angen am arweiniad am yr hyn sydd a sydd ddim yn dderbyniol. Diben y protocol hwn yw i gynnig arweiniad o'r fath ac mae'n gyson â'r rheolau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig. Yn amlwg, y rheol gyffredinol yw y disgwylir yr un safonau ymddygiad os yw aelod ar-lein neu beidio.

**Y CYFLEON A'R RISGIAU**

3. Mae datblygiad y Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnig cyfleon newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda a cheisio ymateb a barn gan drigolion. Mae'r dulliau gwahanol (Facebook, Trydar, Blog ayb) yn cynnig dull sydyn, rhad ac effeithiol o wneud hynny. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gosod defnyddwyr ar flaen y gâd o ran newyddion yn torri. Maent hefyd yn ddulliau sydd yn galluogi gwneud cyswllt â rhai sydd, efallai, heb fod ynghlwm â phrosesau democrataidd o'r blaen.

4. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfryngau all brofi'n hynod ddefnyddiol i'r Cyngor yn gorfforaethol a hefyd i gynghorwyr lleol. Trwy ddefnydd priodol o GYfryngau Cymdeithasol, gall cynghorwyr brofi budd mawr ac mae'r Cyngor yn annog defnydd priodol ohonynt gan gynghorwyr. Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol o'r peryglon a'r risgiau sydd ynghlwm â'u defnydd. Gall camddefnydd o cyfryngau cymdeithasol arwain at anawsterau cyfreithiol arwyddocaol ac mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi llunio cyfarwyddyd i geisio gwarchod rhag hynny. (wele https://www.gov.uk/government/news/attorney-general-to-warn-facebook-and-twitter-users-about-contempt-of-court)

**EGWYDDORION SYLFAENOL**

5. Yr egwyddor sylfaenol yma yw bod "Safon Gwynedd" (gweler Atodiad 1) a'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr (Atodiad 2) yn berthnasol i unrhyw weithgaredd, yn cynnwys defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol. Felly dylai ymddygiad aelod pan yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol gadw at yr un safonau o ymddygiad aelod ag y

byddent yn ymarfer mewn pwyllgor, cyfarfod cyhoeddus neu wrth ohebu â rhywun.

6. Felly, yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol arferol, dylid cofio'r egwyddorion a ganlyn:-
   - Dangos parch at eraill
   - Peidio â datgelu gwybodaeth eithredig neu gyfrinachol
   - Dim bwlio, aflonyddu, erlid na dychryn cyd-aelodau, swyddogion na'r cyhoedd
   - Dim ceisio budd personol
   - Cofio egwyddorion cydraddoldeb
   - Bod yn ofalus rhag penderfynu ymlaen llaw
   - Bod yn ofalus i beidio â bod yn rhan o annog neu gynnen yn erbyn eraill

**Y CYFRIFOLDEB DROS "GYNNWYS"**

7. Un gwahaniaeth mawr rhwng y cyfryngau cymdeithasol â chyfryngau a llwyfannau eraill yw bod ceidwad unrhyw "safle" yn gyfrifol nid yn unig em eu datganiadau eu hunain ond hefyd am datganiadau gan eraill sydd yn cael eu gwneud ar y safle hynny. Felly, os oes y gwneir datganiad amhriodol, perchennog y "safle" sydd yn gyfrifol am dynnu'r datganiad hynny oddi yno.

8. Yn ogystal, unwaith mae rhywbeth wedi ei gyhoeddi ar wefan gymdeithasol, mae yn yr arena gyhoeddus. Bydd y Cyngor, yn ôl yr angen, yn gofyn i aelodau dynnu deunydd sydd yn tramgwyddo'r protocol hwn yn ôl a bydd methu â gwneud hynny yn groes i'r protocol. Fodd bynnag, dylai aelodau fod yn ymwybodol ei fod yn anodd tynnu cofnod, boent yn ffaith neu'n farn, yn ôl unwaith y maent yn yr arena gyhoeddus a gallanet arwain at gamau cyfreithiol yn y pen draw.

**TRAFODAETH "WLEIDYDDOL"**

9. Mae trafodaethau "gwleidyddol" lleol yn medru bod yn rhai cadarn a heriol. Tra mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn bod yn rhaid i aelodau fod â "chroen mwy trwchus" gan bod beirniadau syniadau a barn yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd, mae "Safon Gwynedd" yn ei wneud yn glir na ddylid bod yn sarhaus na'n ddilornus hyd yn oed yn y trafodaethau "gwleidyddol" hynny. Mae'r protocol hwn yn ategu bod y safonau hynny'n berthnasol i ddefnydd aelodau o gyfryngau cymdeithasol.

**Y CYNGHORYDD FEL UNIGOLYN**

10. Fe all cynghorydd sefydlu safleoedd yn ei enw ei hun neu fel "Y Cynghorydd***". Dylai aelodau fod yn ymwybodol bod y protocol hwn yn berthnasol i'r naill senario a'r llall. Gan ei fod yn amlwg bod y ffaith bod unigolyn yn gynghorydd etholedig yn wybodaeth gyhoeddus, dylai aelod fod yr un mor ofalus mewn unrhyw gyfrwng cymdeithasol. Mae'r graddau y bydd y protocol hwn yn cael ei ddefnyddio yn dibynnu ar y cynnwys ond mae'r safonau ymddygiad yn gyson.

**Y DEFNYDD O OFFER Y CYNGOR**

11. Bydd cynghorydd yn medru defnyddio offer y Cyngor ar gyfer cyhoeddi deunydd ar gyfryngau cymdeithasol ond dylai aelodau fod yn fwy gwyliadwrus eto o ran y cynnwys

**DEFNYDD MEWN CYFARFODYDD**

12. Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd o'r Cyngor a'i bwyllgorau. Fodd bynnag, dylid cofio:-

- Dylai sylw pennaf aelod fod ar y drafodaeth sydd ar y gweill ac ar y penderfyniad y mae'n rhaid ei wneud
- Ni ddylid trydar ar unrhyw fater eithredig neu gyfrinachol
- Ni ddylid trydar ar fanylion cyfarfodydd

**GWE-DDARLLEDU**

13. Bydd y Cyngor yn symud maes o law i ddarlledu rhai o'i gyfarfodydd (Cyngor llawn a rhai pwyllgorau) dros y We. Fel rhan o'r datblygiad hynny, byddwn yn annog y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i aelodau o'r cyhoedd ymateb i drafodaethau. Fodd bynnag, bydd hynny'n digwydd trwy "safleodd" swyddogol y Cyngor. Bydd defnydd o gyfryngau gan aelodau etholedig yn unigol yn disgyn o dan paragraff 12 o'r protocol hwn

**HYFFORDDIANT**

14. Fe ddarperir hyfforddiant i aelodau ar y protocol hwn er mwyn arfogi aelodau i wneud defnydd addas a chyfrifol o'r cyfryngau. Mae disgwyliad pendant ar aelodau i wneud defnydd o hyfforddiant o'r fath. Fodd bynnag, mae'n glir bod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r protocol yn gorffwys gyda'r aelod unigol.

**DISGYBLAETH A DELIO Â CHWYNION**

15. Dylid cyflwyno unrhyw gwynion am y drefn i'r Swyddog Priodoldeb. Bydd y Pwyllgor Safonau yn delio ag unrhyw fater disgyblu yn sgil adroddiad am dramgwyddo'r protocol hwn yn ôl ei drefniadau arferol ar ymddygiad aelodau gan gyflwyno argymhellion i'r Cyngor yn ôl yr angen.

**ATODIAD 1 – SAFON GWYNEDD**
**ATODIAD 2 – COD YMDDYGIAD**
**ATODIAD 3 - CANLLAW CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

DRAFT

# SAFON GWYNEDD.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i'w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i'r Cadeirydd ac ufuddhau i'w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy'n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Os yw'n ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall:
    - Egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn cymorth nad ef/hi yw'r aelod lleol
    - Roi gwybod i'r aelod lleol oni bai y byddai hynny yn torri cyfrinachedd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

WLGA • CLILC

# Cyfryngau cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr

Awst 2013

# Cysylltu

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Prif ddibenion WLGA yw hybu safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu cynghorau i lunio polisïau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol ac mae'r 3 gwasanaeth tân ac achub a'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

**www.wlga.gov.uk**

Cyhoeddwyd: Awst 2013
Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
ISBN: 978-1-906423-99-5

*Mae arnom ddyled i'r swyddogion a'r aelodau sydd wedi cyfrannau at y canllaw hwn, yn arbennig yr aelodau a gymerodd ran yn hyfforddiant WLGA i aelodau am Gyfryngau Cymdeithasol, y rhwydwaith swyddogion cymorth aelodau, LLG a Swyddogion Monitro a SOCITIM. Hefyd i Kevin O'Keefe o EXCELA INTERIM MANAGEMENT & CONSULTANCY LTD* ***www.excela.co.uk*** *sydd wedi cyfrannu at y canllaw ac wedi cyflwyno'r rhaglen hyfforddiant.*

*Oherwydd datblygiadau cyflym yn y maes hwn bydd y canllaw hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Croesawn awgrymiadau i'w cynnwys ac mae hyfforddiant pellach i aelodau ar gael oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cysylltwch â Sarah Titcombe, Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadau a'u Staff – 029 2046 8638 sarah.titcombe@wlga.gov.uk.*

# Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r canllaw defnyddiol hwn am gyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi syniad clir i gynghorwyr o beth yw'r arfau hyn a sut allwn ni eu defnyddio.  Mae rhai syniadau gwych i'n helpu i feddwl am sut rydym yn manteisio i'r eithaf ar y ffurfiau cyfathrebu effeithiol a rhad hyn.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut rydym yn gweithio yn Sir Fynwy. Mae gan bob un o'n gweithwyr a'n haelodau ganiatâd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw adeg er mwyn manteisio i'r eithaf ar beth sydd gan sianeli fel Twitter a Facebook i'w cynnig. http://acedigitalcomms.wordpress.com/2013/05/29/unrestricted-staff-access-to-social-media-access-a-roundup/

Yn fyr, maent yn ffordd hawdd o siarad â'n trigolion, busnesau lleol a chyrff partner eraill ac o wrando arnyn nhw. Heb fynediad i'r dulliau hyn byddem yn gorff gwannach gan na fyddem yn clywed beth sy'n bwysig i bobl yn ein cymunedau, y pethau maent eisiau cymryd rhan ynddynt a'u barn nhw am eu cyngor.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi cyfle i ni fod yn greadigol a rhoi cynnig ar bethau newydd.  Mae ein gofalwyr maeth yn Sir Fynwy yn defnyddio Yammer i aros mewn cysylltiad a dysgu oddi wrth ei gilydd. http://monmouthshirecc.wordpress.com/2012/03/12/rewind-story-fostering-communication-using-yammer/

Defnyddiwn YouTube i ymgynghori am ein cyllideb. http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/13/youtubing-a-budget-consultation-and-how-a-great-blogger-helped-us-get-better/

Gwnaethom ni hyd yn oed recriwtio pennaeth presennol ein gwasanaethau plant gan ddefnyddio YouTube, Twitter a Linkedin. http://acedigitalcomms.wordpress.com/2011/07/11/social-care-recruiting-using-social-media-how-monmouthshire-council-is-recruiting-a-head-of-childrens-services-using-youtube/

Rwyf innau'n defnyddio Twitter a'm blog i gysylltu â thrigolion, cynghorwyr a ffermwyr eraill a phobl sy'n rhannu fy niddordebau i. Rwy'n gweld gwerth mawr yn y ffurf hon o gyfathrebu – mae cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn yn arf busnes dilys. http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/12/councillor-peter-fox-leader-of-the-council-talking-about-social-media/

Gobeithio y mwynhewch y canllaw addysgiadol iawn hwn.



**Y Cynghorydd Peter Fox**
Arweinydd Cyngor Sir Mynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a Chynhwysiant Digidol

## Cyflwyniad

Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Mae'r byd yn gweld y newid mwyaf erioed mewn sut mae gwybodaeth yn cael ei chreu a'i meddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu ei rhannu. Mae hyn yn newid sut rydym yn byw, yn gweithio a hyd yn oed sut rydym yn siarad ac yn meddwl.

Canllaw yw hwn ar gyfer Cynghorwyr a hoffai ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel arf i rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a'r tu hwnt, ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs ddwy ffordd gynhyrchiol.

Rydym yn byw mewn byd cyfathrebu agored, hygyrch a dynamig. Bydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod eich llais chi'n cael ei glywed.

## 1. Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

Term hollgynhwysol yw cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Mae modd eu cyrchu drwy eich ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu'ch teledu smart. Mae pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim ac mae modd eu sefydlu'n gyflym ac yn rhwydd o dudalen Rhyngrwyd. Er y bydd y canllaw hwn yn canolbwyntio ar Facebook a Twitter, mae enghreifftiau defnyddiol o gyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

**Blogiau** sy'n debyg i ddyddlyfr ar-lein lle gallwch chi rannu gwybodaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Wordpress, Blogger, Simplesite. Dyma enghraifft o blog nodweddiadol aelod - http://hughevans.wordpress.com/

> **Awgrym gorau**:
> Rhannwch eich meddyliau a'ch gweithgareddau, a rhowch sylwadau am y materion sydd bwysicaf i chi. Gallai cadw blog rheolaidd ei gwneud hi gymaint yn haws i lunio'ch adroddiad blynyddol.

Mae **meicro-blog** yn caniatáu i ddefnyddwyr rhannu darnau byrrach o wybodaeth. Mae ***Twitter*** yn enghraifft o feicro-blog. Mae negeseuon byr rydych chi'n eu postio ar Twitter yn cael eu galw'n "Drydarau" – mae pob un yn gyfyngedig i 140 o gymeriadau (llythrennau, rhifau a gofodau). Nid yw trydarau'n ddull cyfathrebu preifat a gall unrhyw un sy'n eich "dilyn" eu gweld nhw. Mae gan Twitter gyfleuster negeseuo hefyd lle gallwch anfon negeseuon yn uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill Twitter. Fodd bynnag, gall pob neges o'r fath rydych yn ei chyfeirio'n bersonol gael ei gweld gan eich holl ddilynwyr eraill hefyd. Gallwch chi hyd yn oed anfon Trydarau defnyddwyr eraill Twitter ymlaen at eich dilynwyr eich hun, drwy ddefnyddio'r swyddogaeth Aildrydar.

Tweeting is a good way of promoting local events, live tweeting @council meetings and to give links to longer posts. #Jaynecowan

**Awgrym gorau**:
Dilynwch a mynnwch gael eich dilyn. Mae Twitter yn ffordd dda iawn o gael gwybod beth sy'n digwydd, a barn pobl am faterion lleol a byd-eang. Gwrandewch yn gyntaf ac yna ymunwch yn y sgwrs.

Mae **Rhwydweithiau Cymdeithasol** fel ***Facebook*** yn debyg i gynnal eich gwefan bach eich hun sy'n gallu cynnwys lluniau a thestun ac yn gallu darparu gwybodaeth a ffotograffau. Yn nodweddiadol mae'r safleoedd hyn yn eich galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am beth rydych chi'n ei wneud neu'n ei feddwl drwy ddiweddaru 'statws' , gan adael i chi siarad am bwy ydych chi, beth sy'n bwysig i chi, beth rydych chi wedi ei wneud a'ch cynlluniau. Gallwch chi wahodd pobl i fod yn 'ffrindiau' i chi a gosod lefelau mynediad gwahanol i'ch cyfrif, fel bod rhai pobl yn cael gweld yr holl wybodaeth amdanoch chi neu gallwch drefnu bod llai o fanylion ar gael i bobl eraill. Hefyd gallwch ddefnyddio Facebook i gyfathrebu â grwpiau neu unigolion. Os bydd pobl yn ymddiddori yn eich tudalen, eich sylwadau neu'ch cynigion gallan nhw eich "hoffi" chi, sy'n annog defnydd pellach, ac yn ffordd ddefnyddiol o gynnal pôl gwelltyn o'ch syniadau.

Mae ***Linked-IN*** yn cyfateb i Facebook ar lefel broffesiynol. Gallwch ddarparu gwybodaeth am hanes eich gyrfa a'ch sgiliau, a gall pobl rydych yn "gysylltiedig" â nhw eich cefnogi chi ar gyfer sgiliau penodol. Mae hwn yn safle defnyddiol i ddod o hyd i arbenigedd a mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau busnes yn eich ward neu'ch ardal.

Mae ***Flikr, Vimeo, Instagram*** a ***You Tube*** yn enghreifftiau o blatfformau i rannu fideo a ffotograffau. Peidiwch anghofio ofyn am ganiatâd cyn tynnu lluniau i'w llwytho i'r safleoedd hyn, neu gopïo delweddau ohonynt. Cymhwysiad am negeseuon lluniau yw ***Snapchat*** ar gyfer ffotograffau, fideo, lluniadau a thestun.

Mae **Cymunedau Ymarfer** yn ffordd i bobl o'r un bryd ymuno â chymuned lle gallant rannu gwybodaeth a thrafod materion sy'n berthnasol i'r Gymuned er enghraifft Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol.

## 2. Pam Dylech Chi Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol?

Bydd cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i chi gychwyn sgyrsiau newydd â'r bobl rydych chi'n eu cynrychioli, ac mae'r potensial i gynghorwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn aruthrol. Bydd gan eich Cyngor gyfrifon swyddogol ar Twitter yn barod a bydd cyfrifon Facebook gan lawer hefyd. Yn ogystal mae'n bosibl bod Pwyllgorau Craffu yn

defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgymryd ag adolygiadau gwasanaeth.

Felly beth yw manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr?

- Mae nifer cynyddol o bobl yn defnyddio Twitter a Facebook fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Os oes gennych chi bresenoldeb ar y platfformau hyn mae gennych y potensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonyn nhw.
- Mae'n ffordd ddefnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau.
- Mae'n ddefnyddiol ar gyfer dysgu am y newyddion diweddaraf un, yr ymchwil neu'r cyhoeddiad diweddaraf neu gyhoeddiadau polisi diweddaraf pleidiau gwleidyddol.
- Mae'n ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn bersonol.
- Mae'n ffordd effeithiol o gyd-drefnu ymgyrchoedd er enghraifft caniatáu mynediad i'ch cyfrif Facebook i weithwyr ymgyrchu.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn eich galluogi i gael sgwrs ag amrediad o bobl na fyddech chi byth yn gallu cwrdd â nhw'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu am gyfathrebu ar fyrder. Gallwch drosglwyddo gwybodaeth a derbyn safbwyntiau mewn munudau. Gallwch chi anfon ymlaen gwybodaeth oddi wrth bobl eraill yr un mor gyflym. Nid yw "Mynd yn Firaol" yn beth drwg o reidrwydd, gan gyfeirio at ledaeniad torfol darn o wybodaeth ledled y byd.
- Bydd y wasg leol ac weithiau cenedlaethol yn dilyn Cynghorwyr ar Twitter neu Facebook. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod beth rydych chi'n siarad amdano y funud rydych chi'n siarad amdano.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn symudol. Byddan nhw gyda chi o amgylch eich cymuned, ar y trên, mewn siop goffi neu fore coffi neu hyd yn oed yn y gwely.
- Gallwch chi lwytho lluniau a fideos, gan ddangos er enghraifft eich rôl chi mewn digwyddiadau lleol, lluniau o ddarpar safleoedd datblygiad, adeiladau newydd, doluriau llygad lleol – mae llun yn mynegi mil o eiriau.
- Mae'n rhad ac am ddim, nid oes unrhyw dâl am gyfrif, mae'n debyg bod gennych chi'r offer mae ei angen yn barod. Y cyfan mae arnoch ei angen yw amser.
- Gallwch gael adborth ar unwaith am eich syniadau a'ch maniffesto i'ch galluogi i addasu'ch cynigion yn unol â'r farn leol.
- Yn anad dim, mae'n gallu bod yn llawer o hwyl!

## 3. Sut i Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn effeithiol

- Dewiswch eich cyfrwng a chofrestrwch. Mae hyn yn syml iawn a bydd yn cymryd llai na phum munud i chi!
- Mae Facebook a Twitter yn fannau cychwyn da. Efallai yr hoffech chi ddechrau gyda chyfrif personol fel treial (yn hytrach na galw'ch hun yn "Cynghorydd Jones") ac arbrofi gyda'ch teulu a ffrindiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut mae pobl yn dod o hyd i chi a phwy sydd â mynediad i'ch deunydd chi. Cofiwch:

    - Ar Facebook gallwch chi reoli pwy sydd â mynediad i wahanol rannau o'ch cyfrif. Chi sy'n cael rheoli beth mae'r byd yn ei weld a beth mae'ch "ffrindiau" chi'n ei weld.
    - Ar Twitter gall y byd i gyd weld popeth rydych chi'n ei Drydar. Mae hyd yn oed y negeseuon rydych chi'n eu Trydar yn uniongyrchol i bobl eraill yn gallu cael eu gweld gan unrhyw un oni bai eich bod wedi cloi'ch cyfrif i lawr i ddilynwyr.

- Pan fyddwch chi'n barod i sefydlu'ch cyfrif terfynol, ystyriwch beth rydych yn galw arnoch chi'ch un. Mae'r enw rydych yn ei roi i'ch hunan ar-lein yn bwysig gan ei fod yn galluogi pobl i ddod i hyd i chi. Mae rhagflaenu'ch cyfrif Twitter â 'Cynghorydd' yn gadael i bobl wybod yn union pwy ydych chi ac yn arwydd y bydd y Cod Ymddygiad yn gymwys.

- Efallai y byddwch chi am ystyried sefydlu cyfrif personol a chyfrif "proffesiynol" ar wahân - gallwch chi siarad am y bwyd anhygoel yn y bwyty rownd y gornel wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif anffurfiol, ac am y cynlluniau am y ffordd osgoi newydd wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif proffesiynol.  Fodd bynnag, mae llawer o gynghorwyr yn meddwl bod rhai o'u sylwadau personol am fwyd, llefydd maen nhw wedi ymweld â nhw, gemau pêl-droed neu'r teledu yn helpu i chwalu canfyddiadau am gynghorwyr ac yn profi eu bod yn normal fel pawb arall!

> *I use Twitter to speak with residents and engage more broadly. Also to twitter on about books, music, trains and ale Almost human*
>
> @LukeOHolland
> Cynghorydd Caerdydd

- Gwnewch hi'n hawdd i bobl ddod o hyd i chi ar-lein. Bydd llawer o bobl yn dechrau chwilio Yn ôl yr ardal rydych chi'n ei chynrychioli, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am eich lleoliad yn aml gan y bydd peiriannau chwilio yn codi hynny wedyn. Hefyd byddwch chi am wneud yn siŵr bod manylion eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar eich cardiau busnes, posteri a dalenni.

- Ar Twitter, cofrestrwch ar Tweety Hall a safleoedd eraill lle mae etholwyr yn gallu dod o hyd i'w cynghorwyr.

- Cynyddwch eich presenoldeb ar y we drwy gysylltu â phobl a safleoedd eraill, gadael sylwadau am bostiadau eraill ac annog pobl eraill i gysylltu â chi. Po fwyaf y cewch eich enwi, mwyaf i gyd y bydd pobl yn dod o hyd i chi.

- Dewiswch eich ffrindiau ar Facebook a phwy hoffech chi eu dilyn ar Twitter. Cadwch mewn cof fod pobl yn gwybod pwy sy'n eu dilyn ac yn aml byddant yn eich dilyn chi yn gyfnewid. Dewch o hyd i bob ar Twitter sydd â chysylltiadau â'ch cymuned, eich sir neu'ch rhanbarth drwy chwilio gan ddefnyddio'r symbol 'hashtag' (#) i ragflaenu'ch term chwilio er enghraifft #Reynoldston, #Gŵyr, #Abertawe, #De-orllewin Cymru, #Cymru.

- Byddwch yn ddisgybledig ynghylch trefnu bod amser ar gael i ysgrifennu cynnwys newydd ac i ateb i'ch "ffrindiau" a "dilynwyr". Trefnwch amser rheolaidd bob wythnos i ddiweddaru'ch statws Facebook a thrwy gydol y dydd i wirio Twitter.

- Penderfynwch beth rydych chi'n mynd i siarad amdano a sut. Gallai hyn fod yn
    - Ddiweddariadau wythnosol am eich gweithgareddau eich hun fel cynghorydd – peidiwch ag anghofio'ch lluniau! Mae hyn yn gweithio'n well ar Facebook gan y gallwch chi gynnwys mwy o fanylion. Cofiwch mai dim ond 140 o gymeriadau a gewch chi ar Twitter ac mae'n tueddu i fod yn fwy uniongyrchol ac amserol
    - Diweddariadau rheolaidd am bolisïau a chamau gan y cyngor sydd o ddiddordeb i'ch cymuned
    - Cysylltiadau ac aildrydarau am weithgareddau cenedlaethol perthnasol eraill
    - Materion yr hoffech chi gael adborth arnyn nhw
    - Rhybudd am ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus

**Cofiwch** mai cyfathrebu dwyffordd yw hanfod defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n dda i ddarparu gwybodaeth i'ch cymuned neu dynnu sylw at ddatganiadau i'r wasg, ond mae'n well fel dull o gael adborth defnyddiol. Fe gewch chi adborth a dylech chi ddisgwyl i rai pobl herio'ch syniadau neu gychwyn trafodaeth â chi ar-lein. Mae hyn yn rhan gynhenid o gyfryngau cymdeithasol.

## 4. Moesau ac arddull

- Cadwch eich cyfathrebu'n glir, yn gadarnhaol, yn gwrtais ac yn broffesiynol. Mae iaith blaen yn helpu. Mae llawer o bobl yn defnyddio talfyriadau ar Twitter – byddwch chi'n dysgu'r rhain ar hyd y ffordd!
- Osgowch fod yn eironig neu'n wawdlyd, gall hynny gael ei gamddehongli.
- Ar Facebook, bydd angen i chi fonitro ac, os oes angen, sensro'r cyfraniadau mae pobl eraill yn eu gwneud at eich safle; dilëwch nhw os nad ydynt yn cyd-fynd â'ch safonau gofynnol ymddygiad neu iaith. Bydd iaith ddifenwol a thramgwyddus yn cael ei phriodoli i'r cyhoeddwr yn ogystal ag i'r awdur gwreiddiol ac fe allai olygu atebolrwydd ariannol. Chi biau'r penderfyniad a ydych chi am ddileu postiadau sy'n anghytuno â'ch safbwynt gwleidyddol, ond os byddwch chi'ch eu tynnu mae'n bosibl y cewch chi'ch cyhuddo o sensro cyfraniadau ar seiliau gwleidyddol.
- Ar Twitter, gallwch chi flocio pobl sy'n dramgwyddus neu'n flinderus yn gyson. Ond cofiwch fod eu blocio ond yn eu hatal rhag ymwneud â chi'n uniongyrchol, bydd eu trydarau yn dal i fod yn gyhoeddus i bob un o'u dilynwyr nhw.
- Cadwch mewn cof y gallai sgorio pwyntiau gwleidyddol fod yn anniddorol i etholwyr a bod yn well ganddynt glywed gwybodaeth am beth rydych chi'n ei gyflawni.
- Os nad oes rhaid i chi ddweud dim…peidiwch â dweud dim. Er bod temtasiwn i adael i'ch dilynwyr wybod pa mor brysur ydych chi, byddan nhw'n diflasu cyn hir ar ddiweddariadau cyson am eich diwrnod heb rywfaint o wybodaeth berthnasol neu ddiddorol.

## 5. Cefnogaeth oddi wrth y Cyngor

Fel arfer mae Cynghorwyr yn derbyn yr offer TGCh mae arnynt eu hangen i wneud eu swydd. Mae'r Panel Tâl Annibynnol yn disgwyl i hyn gynnwys offer, cefnogaeth a hyfforddiant TGCh.

Mae'n rhesymol hefyd disgwyl bod gennych chi fynediad i safleoedd cyfryngau cymdeithasol i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl fel cynghorydd yn fwy effeithiol. Nid oes arnoch chi angen i'r cyngor sefydlu cyfrif personol cyfryngau cymdeithasol i chi ond dylech fanteisio ar unrhyw hyfforddiant neu arweiniad sy'n cael ei roi i'ch helpu i'w ddefnyddio'n briodol.

Mae gan y mwyafrif o gynghorau bolisi Cyfryngau Cymdeithasol. Bydd yn rhaid i chi barchu hwn ac unrhyw brotocolau Cyfryngau Cymdeithasol sydd wedi eu cytuno wrth ddefnyddio'ch cyfrif "cynghorydd".

Mae'n werth cofio mai'r cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ei wefan a'i fod yn dod o dan gyfrifoldebau cyfreithiol. **Chi** sy'n bersonol gyfrifol am y deunydd rydych yn ei ddarlledu drwy gyfrwng eich cyfrifon

cyfryngau cymdeithasol neu wefannau eich hun - ond mae mwy am hyn yn nes ymlaen.

Bydd cyngor ar gael i chi oddi wrth nifer o swyddogion y cyngor. Mae'n debyg y bydd cyngor defnyddiol gan y Swyddog Monitro, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Cyfathrebu a'r Rheolwr TGCh.

## 6. Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfarfodydd Cyngor

Yn ddiweddar, yn enwedig gyda dyfodiad gweddarlledu, bu cynnydd mewn diddordeb yn nefnydd Twitter mewn cyfarfodydd Cyngor. Bydd angen i chi gael eich arwain gan gyfansoddiad eich cyngor, wrth reswm. Ac eithrio'r hyn sydd yn eich cyfansoddiad neu'ch polisi cyfryngau cymdeithasol, nid oes unrhyw reswm cyfreithiol pam na ddylech chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol o gyfarfodydd. Fodd bynnag, mae angen defnyddio ychydig o synnwyr cyffredin.

- Mae trydar am gynnydd cyfarfod a derbyn sylwadau oddi wrth y gymuned yn gallu bod yn ddefnyddiol o safbwynt tryloywder ac ymgysylltu OND mae'n bosibl y bydd defnydd eithafol ar Twitter yn rhoi'r argraff i bobl nad ydych chi'n canolbwyntio ar y buses wrth law neu hyd yn oed yn dibynnu ar arweiniad o'r tu allan i'r cyfarfod. Am y rheswm hwnnw, yn fwy na thebyg mae'n synhwyrol peidio â defnyddio Twitter yn ystod trafodaeth gynllunio neu drwyddedu.

Efallai y bydd cadeiryddion Pwyllgor yn dymuno penderfynu sut i ddelio â hyn yn eu cyfarfodydd nhw a dylech chi barchu'r rheolau a bennir yn eich cyfansoddiad.

- Cofiwch, mae'n bosibl na fydd angen i chi drydar am fanylion cyfarfod – mae rhai cynghorau yn cyflwyno trefniadau newydd i weddarlledu cyfarfodydd ac mae'n bosib bod ganddynt borthiannau Twitter "swyddogol" am sgyrsiau byw ar-lein i redeg ochr yn ochr â chyfarfodydd.

- Os yw'ch cyngor chi yn gweddarlledu'ch cyfarfodydd, dyma ffordd ddefnyddiol i'r cyhoedd weld beth sy'n digwydd o lygad y ffynnon a sicrhau bod unrhyw recordiadau fideo yn gywir. Gall ffilmio cyfarfodydd yn anffurfiol, p'un ai cynghorwyr neu'r cyhoedd sy'n gwneud hynny, beri anawsterau ac fe arfer trafodir hyn yn y Cyfansoddiad. Fe all dynnu sylw oddi wrth y trafodion ac os bydd fersiwn wedi ei olygu yn ymddangos ar You Tube fe allai greu argraff anghywir.

- Cofiwch na ddylech chi drydar neu gyfathrebu mewn unrhyw ffordd gynnwys busnes esempt neu gyfrinachol sy'n cael ei drafod gan awdurdodau lleol mewn sesiwn caeëdig, er enghraifft wrth wneud penodiadau ffurfiol.

## 7. Y Gymraeg

Gallwch chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn iaith eich dewis; nid oes rhaid i chi gyfieithu'ch trydarau neu gyfrifon Facebook personol.

Fodd bynnag efallai y bydd ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Cynghorau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn teimlo nad oes unrhyw angen i ffrydiau cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog gan y bydd y ddwy ffrwd yn cael eu cyrchu gan gymunedau gwahanol ac yn ddigon ar gyfer pob un.[1]

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o reolau'ch Cyngor am ddefnydd y Gymraeg a bennir yn eich Cynllun Iaith Gymraeg.

## 8. Rheolau euraid

Meddyliwch cyn trydar neu bostio ar Facebook. Peidiwch â dweud dim, postio safbwynt na barn na fyddech chi'n fodlon:

- Ei drafod wyneb i wyneb gyda'r sawl rydych chi'n siarad amdano/amdani.
- Ei ysgrifennu ar hysbyslen a'i gario i lawr eich stryd fawr a'i drafod a'i amddiffyn gydag unrhyw un sy'n ei weld.
- Iddo gael ei gofnodi mewn cyfarfod cyhoeddus – cofiwch, yn y bôn mae Twitter neu Facebook yn cofnodi popeth yn gyhoeddus i chi wrth i chi fynd yn eich blaen!

Cofiwch ar ôl i chi ddweud rhywbeth y gallai gael ei weld gan filiynau o bobl - ffrindiau, cefnogwyr, gwrthwynebwyr gwleidyddol a'r wasg ac y gallai gael ei aildrydar o amgylch y byd mewn munudau.

Cadwch eich negeseuon yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn bositif.

Cofiwch geisio cadw trydarau a negeseuon testun ar wahân – mae llawer o bobl yn trydar sylwadau y byddent wedi ei hanfon mewn neges destun i rywun yn breifat o'r blaen; gallai hyn fod am gwrdd yn nes ymlaen (ydych chi eisiau i'ch holl ddilynwyr wybod am eich cynlluniau a thorri ar draws eich cinio!?) drwodd i jôcs personol a allai gael eu camddehongli.

Peidiwch â dilyn unigolyn oni bai eich bod yn ei adnabod neu mae gennych chi reswm da dros wneud. Byddai rhai pobl, fel etholwyr neu weithwyr y cyngor, efallai'n teimlo'n anghysurus petai eu cynghorydd lleol yn dilyn pob gair maen nhw'n ei ddweud.

Os gwnewch chi gamgymeriad, cyfaddefwch hynny.  Mae camgymeriadau'n digwydd felly peidiwch â cheisio ei guddio achos bydd cofnod o beth rydych chi wedi ei ddweud bob tro.

Peidiwch ag ymuno â dadleuon annefnyddiol ar-lein; cofiwch y bydd eich holl ddilynwyr neu ffrindiau yn dilyn hyn ar-lein. Anwybyddwch bobl neu eu blocio

---

[1] http://www.participationcymru.org.uk/home/all-wales-public-service-organisations-internet-and-social-media-survey?diablo.lang=cym

nhw os ydyn nhw'n gwneud sylwadau blinderus yn gyson.
Peidiwch â thrydar neu bostio ar Facebook pan fyddwch chi "wedi blino". Y peth synhwyrol mae'n debyg yw troi eich ffôn i ffwrdd ar unrhyw adeg pan gredwch fod eich barn o bosibl yn ddiffygiol.

Cadwch mewn cof ei bod yn bosibl i'ch dilynwyr a'ch ffrindiau gael eu gweld, os byddwch chi'n dilyn neu'n "ffrindiau" ar Facebook gyda gweithwyr y cyngor, contractwyr sydd wedi eu caffael i ddarparu gwasanaethau i'r cyngor, cwmni neu aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud cais cynllunio neu garfannau pwyso. Fe *allai* hyn gael ei ystyried fel cysylltiad personol agos gyda nhw ac felly'n fuddiant personol.

Yn yr un modd â'ch taflenni neu'ch newyddlenni eich hun, gofynnwch am ganiatâd bob tro cyn tynnu llun rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio. PEIDIWCH BYTH â thynnu lluniau o blant heb ganiatâd penodol eu rhiant ar sail dealltwriaeth o beth rydych chi'n bwriadu defnyddio'r llun amdano. Bydd gan eich cyngor bolisi ar dynnu lluniau o blant, cymerwch gyngor ar hyn cyn tynnu neu ddefnyddio lluniau.

Peidiwch â gadael i neb arall gael mynediad i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Amddiffynnwch eich cyfrineiriau yn enwedig os byddwch chi'n defnyddio cyfrifiadur cyhoeddus.

Yn debyg i e-bost, gallwch chi dderbyn sbam mewn cyfryngau cymdeithasol! Byddwch yn wyliadwrus am negeseuon uniongyrchol drwy gyfrwng Twitter, hyd yn oed oddi wrth bobl rydych chi'n eu hadnabod, sy'n dwyn negeseuon fel 'Helo, ydych chi wedi gweld y ffoto yma ohonoch chi ar Twitter?' Dilëwch y rhain cyn eu hagor, gan y gallai'r sbam gael ei anfon wedyn at yr holl bobl rydych chi'n ei dilyn…

## 9. Maglau Posibl a Sut i'w Hosgoi

**Amser ac Ymroddiad**

Mae'n gallu cymryd amser i gynnal eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o bobl yn mynd ati'n frwdfrydig ac yna'n gadael i'w cyfrifon sefyll heb eu defnyddio. Mae hyn yn beryglus gan y gallai ffrindiau a dilynwyr gredu nad ydych chi'n weithgar neu, yn waeth, nad ydych chi'n ymateb.

I osgoi hyn:

- Sefydlwch gyfrifon y gallwch chi eu rheoli yn unig, dewiswch naill ai Twitter neu Facebook os oes angen. Mae'n bosibl sefydlu cysylltiadau rhwng y ddau a fydd yn eich arbed rhag dyblygu gwybodaeth.
- Rhowch amser o'r neilltu'n rheolaidd i'w diweddaru a dewch yn gyfarwydd â bachu'r cyfle i gyfathrebu wrth fynd a dod.

**Y Gyfraith**

Mae cynghorwyr sy'n newydd i gyfryngau cymdeithasol yn tueddu i boeni am y goblygiadau cyfreithiol. Mae'n ystyriaeth bwysig, ac mae rhai cynghorwyr a gwleidyddion eraill wedi torri'r gyfraith, ond drwy ddefnydd gofalus a dilyn rhai rheolau sylfaenol byddwch chi'n iawn!

Mae'r arddull gyfathrebu sy'n cael ei defnyddio yn amgylchedd cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i fod yn gyflym ac yn anffurfiol. Gall negeseuon ymddangos yn fympwyol ac yn fyrhoedlog.

Pryd bynnag y cyhoeddwch chi rywbeth ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn gyhoeddiad, mewn gwirionedd rydych chi wedi gwneud darllediad. Gan ei fod bellach yn y parth cyhoeddus, mae'n dod o dan y **Cod Ymddygiad** ac amrywiol **Gyfreithiau.**

**Y Cod Ymddygiad**

Os byddwch chi'n ymddwyn ar Twitter neu Facebook fel y byddech chi ar y stryd neu yn eich taflenni, yna byddwch chi'n berffaith iawn.

Cofiwch, yn ôl y canllawiau oddi wrth yr Ombwdsmon, fod y Cod Ymddygiad yn gymwys i chi pryd bynnag rydych chi'n "Cyflawni busnes eich awdurdod, yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol fel aelod neu gynrychiolydd eich awdurdod". Mae'r Cod yn gymwys hefyd os byddwch chi'n "ymddwyn mewn dull y gellid ei ystyried yn rhesymol fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod"[2]. Os gallwch chi gael eich adnabod fel cynghorydd pan fyddwch chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, naill ai drwy enw'ch cyfrif neu sut rydych yn disgrifio'ch hun neu drwy'r hyn rydych chi'n rhoi sylwadau arno a'r sylwadau eu hunain, mae gofynion y Cod Ymddygiad yn gymwys. Hefyd os dwedwch rywbeth y gellid ei ystyried fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod, mae'r Cod yn gymwys hyd yn oed na nad ydych yn ôl pob golwg yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol neu'n adnabod eich hun fel aelod. Cofiwch fod canllawiau'r Ombwdsmon yn dweud "Gallai beirniadu'ch awdurdod yn annheg neu'n anghywir mewn arena gyhoeddus gael ei ystyried fel dwyn anfri ar eich awdurdod".

Yn yr un modd â'r gofynion arnoch o ran ymddygiad mewn cyfarfodydd cyngor neu yn eich cymunedau, dylech:

- **Ddangos parch tuag at eraill** – peidiwch â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fod yn anfoesgar neu'n amharchus
- **Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am bobl neu'r cyngor**
- **Peidio â bwlio neu ddychrynu eraill** - gallai sylwadau negyddol cyson am unigolion neu tuag atynt gael ei ddehongli fel bwlio neu ddychrynu

---

[2] http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/Guidance-policies.aspx

- **Peidio â cheisio sicrhau budd i'ch hunan neu anfantais i bobl eraill**
- **Parchu cyfreithiau cydraddoldeb** – peidiwch â chyhoeddi dim a allai gael ei ystyried fel gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, oedran, yn homoffobig neu'n wrth-fydd. Hyd yn oed fel jôc neu "â'ch tafod yn eich boch".

**Rhagosodiad**
Fel cynghorydd, rydych yn ymwybodol pan fyddwch chi'n gweithredu mewn modd lled-farnwrol, er enghraifft ar bwyllgor cynllunio neu drwyddedu, na ddylech chi benderfynu ar fater sydd i'w benderfynu'n ffurfiol cyn i chi glywed yr holl wybodaeth berthnasol. Gallwch chi ragdueddu tuag at safbwynt penodol ond heb fynd mor bell â rhagosod eich safbwynt. Mae'n bwysig cofio felly y gallai unrhyw beth rydych chi wedi ei ddweud am faterion penodol ar gyfryngau cymdeithasol gael ei ddefnyddio'n dystiolaeth eich bod wedi penderfynu ymlaen llaw cyn clywed yr holl wybodaeth berthnasol.

**Tramgwyddau Troseddol**
Peidiwch â brawychu! Mae'r rhain fel rheol yn gymwys i chi yn barod o ran eich ymddygiad fel cynghorydd, ond mae'n werth eu hystyried fel maen nhw'n berthnasol i gyfryngau cymdeithasol:

**Aflonyddu** – Mae'n dramgwydd troseddol parhau i gynnal ymgyrch yn erbyn rhywun lle mae hyn yn debygol o beri gofid, aflonyddwch, niwsans neu drallod.

**Diogelu Data –** Mae'n anghyfreithlon cyhoeddi data personol am unigolion oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd i chi. Gallai hyn fod yn gymwys i'ch etholwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel cynghorydd rydych yn rheolwr data yn eich hawl eich hun ac felly'n bersonol gyfrifol am yr hyn rydych chi'n ei gyhoeddi.
**Annog -** Tramgwydd troseddol yw annog unrhyw weithred droseddol.

**Gwahaniaethu a throseddau gwaethygedig Hiliol (neu unrhyw Nodwedd warchodedig arall) -** Tramgwydd troseddol yw gwneud sylwadau gwahaniaethol am unrhyw un ar sail "Nodwedd Warchodedig" fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb (fel ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac ati).

**Cyfathrebiadau Maleisus ac Anllad –** Tramgwydd troseddol yw anfon cyfathrebiadau maleisus neu anllad.

**Y Gyfraith Sifil**
Dyma lle mae pethau'n mynd yn fwy peryglus i <u>unrhyw un</u> sy'n defnyddio Twitter neu Facebook, p'un a ydyn nhw'n gynghorwyr, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n enwogion…

**Difenwi -** Mae yn erbyn y gyfraith i wneud datganiad ffug am rywun sy'n niweidio ei enw da personol neu broffesiynol. Yn hollbwysig - hyd yn oed os byddwch chi ond yn aildrydar neu'n trosglwyddo gwybodaeth a gafodd ei phostio'n wreiddiol gan rywun arall, gallwch chi gael eich dal yr un mor gyfrifol â'r sylwebydd gwreiddiol. Gall hyn fod yn wir am gyhoeddi delweddau hefyd. Os cewch eich dyfarnu'n atebol i rywun arall, gallech chi gael eich gorchymyn i dalu symiau mawr o arian fel iawndal.

**"High Court: Sally Bercow's Lord McAlpine tweet was libel"**

http://www.bbc.co.uk/news/world-22652083

**Hawlfraint -** Mae perchnogaeth gyfreithiol cynnwys dogfennau, ffotograffau, fideos a cherddoriaeth yn nwylo'r person a'u creodd. Gallech chi fod yn torri hawlfraint os byddwch chi'n atgynhyrchu deunydd o'r fath heb ganiatâd y perchennog. Gofynnwch am ganiatâd ysgrifenedig bob tro cyn defnyddio deunydd rhywun arall.

**Sylwadau gwleidyddol ac ymgyrchu dros etholiad -** Cofiwch er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio pleidleisiau drwy'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich hun ni fydd hyn yn cael ei ganiatáu os ydych chi'n gwneud hyn drwy gyfrwng offer cyfrifiadur a ddarperir gan y cyngor, yn bendant felly wrth nesáu at etholiadau. Mae gan y Comisiwn Etholiadol fwy o wybodaeth am yr elw ar wariant y mae angen i ymgeiswyr ei ddarparu ar ddeunyddiau hysbysebu neu ymgyrchu.

## 10. Gwybodaeth bellach, safleoedd diddorol a Ffynonellau Cymorth

Cadwch mewn cof fod gwybodaeth, safleoedd a therminoleg yn newid yn gyflym. Mae Facebook eisoes yn adrodd gostyngiad yn nifer ei ddefnyddwyr. Ond bydd y platfform cyfryngau cymdeithasol mawr nesaf ar ei ffordd cyn pen dim. Dyma rai enghreifftiau cyfredol o wybodaeth a safleoedd defnyddiol ond cadwch mewn cof y gallant fynd yn hen yn gyflym iawn.

Cofrestrwch ar Twitter yma
https://twitter.com/

Cofrestrwch ar Facebook yma
https://en-gb.facebook.com/

**Tweety Hall.** Platfform sy'n casglu ynghyd yr holl Gynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter yn y Deyrnas Unedig er mwyn i'w postiadau gael eu darllen mewn un man a gall y cyhoedd ddod o hyd i'w cynghorydd lleol nhw yn rhwydd. I ymuno â nhw mae ond angen anfon Trydar atyn nhw.
http://tweetyhall.co.uk/

**Cynghorwyr yr 21ain ganrif**
http://socialmedia.21st.cc/
Arweiniad defnyddiol i aelodau am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

http://kindofdigital.com/
asiantaeth arloesi ar-lein sy'n helpu cyrff i ymgysylltu ar-lein â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid. Mae ganddi enghreifftiau defnyddiol o ganllawiau ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae **Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol** yn enghraifft o gymuned ymarfer. Sefydlwyd hwn yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol ac mae ganddo fforymau ar-lein, llyfrgelloedd llawn deunyddiau a manylion digwyddiadau.
https://knowledgehub.local.gov.uk

**Cyfryngau cymdeithasol a Chymuned Cydweithredu ar-lein.** Ymunwch â chymuned hon y Porth Gwybodaeth i siarad â chynghorwyr a swyddogion eraill sy'n gweithio gyda chyfryngau cymdeithasol.

## 11. Geirfa

**Blog**
Term sydd wedi dod o Weblog h.y. dyddlyfr neu ddyddiadur ar y rhyngrwyd

**Blogosffer**
Yr holl flogiau ar y rhyngrwyd

**Cymuned Ymarfer**
Grŵp o bobl sy'n aelodau o 'glwb' ar-lein am fod ganddyn nhw rôl neu ddiddordeb mewn maes gwaith

**Neges Uniongyrchol**
Neges sy'n cael ei hanfon drwy Twitter at rywun sy'n eich dilyn chi neu rydych chi'n eu dilyn nhw

***Facebook***
Enghraifft o Rwydweithio cymdeithasol

***Flikr***
Safle rhannu ffotograffau

**Dilynwr**
Rhywun sydd wedi dewis eich dilyn chi ar Twitter

**Ffrind**
Rhywun rydych chi wedi caniatáu mynediad iddynt i'ch tudalen Facebook. Nid o reidrwydd yn ffrind go iawn

**Fforwm**
Man trafod rhithwir

**#Hashtag**
Mae hashtag neu # yn ffordd o ddynodi gair allweddol a all gael ei ddefnyddio'n derm chwilio ar Twitter

***Instagram***
Platfform ar gyfer rhannu ffotograffau a fideos

**Instant Messaging**
Sgwrs ag un person arall drwy er enghraifft Microsoft Live Messenger neu Yahoo Messenger. Sgwrs sydd, os nodwch eich bod ar gael i sgwrsio, yn fwy uniongyrchol nag e-bost ac yn haws ei deipio na neges destun

**Meicroblog**
Blog byr e.e. Twitter sy'n defnyddio uchafswm o 140 o gymeriadau

***Pinterest***
Pinfwrdd rhithwir ar gyfer creu a rhannu delweddau

***RebelMouse***
Gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n cysylltu â'ch cyfrifon mewn gwasanaethau fel Facebook, Twitter ac Instagram. Mae'n integreiddio'ch holl drydarau cyfryngau cymdeithasol, postiadau a blogiau'n awtomatig mewn un dudalen, gan hybu'ch presenoldeb cyfryngau cymdeithasol heb fod rhaid i chi wneud dim ychwanegol gan ei fod yn 'rhedeg yn y cefndir'. Bydd yn eich arbed chi rhag gorfod trydar eich blogiau ac ati i fod yn amlycach mewn peiriannau chwilio.

**Aildrydar**
Anfon ymlaen trydar rydych wedi ei dderbyn ar Twitter

**Porthiannau RSS neu borthiannau Really Simple Syndication**
Negeseuon o wefannau sy'n dweud wrthych chi bod gwybodaeth newydd ar gael fel nad oes rhaid i chi wirio'r wefan yn gyson am ddiweddariadau

**Meincnodi Cymdeithasol**
Dull o arbed a rhannu pob un o'ch hoff safleoedd ar y we, er enghraifft ***Delicious***

**Rhwydweithio cymdeithasol**
Facebook ac yn y blaen

***Snapchat***
Cmhwysiad negeseuon llun ar gyfer ffotograffau, fideos, darluniadau a thestun

**Sbam** post sothach electronig

**Trendio**
Pobl neu sgyrsiau sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, fel *yn trendio ar Twitter ar y funud…*

**Trol**
Rhywun sy'n amharu ar gymunedau neu drafodaethau ar-lein drwy bostio pethau annefnyddiol neu amherthnasol

**Trydar**
Neges sy'n cael ei hanfon ar Twitter

***Tweety Hall***
Man ymgynnull rhithwir ar gyfer cynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter

***Twitter***
Enghraifft o feicroblogio

***Vimeo***
Platfform i rannu fideo a lluniau

**Wikis**
Erfyn sy'n caniatáu i unrhyw un ychwanegu at gynnwys gwefan neu ei olygu

***Wikipedia***
Gwyddoniadur ar-lein sy'n gweithio gan ddefnyddio'r dull hwn ac felly nad yw bob amser yn fanwl gywir

***YouTube***
Platfform ar gyfer rhannu fideos a ffotograffau

## RHAN 5 – CÔD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU

### RHAGARWEINIAD

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru. Dyma nhw:

***Anhunanoldeb***
**1.** Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

***Gonestrwydd***
**2.** Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

***Uniondeb a Gwedduster***
**3.** Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.

***Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith***
**4.** Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

***Stiwardiaeth***
**5.** Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.

***Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau***
**6.** Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

***Cydraddoldeb a Pharch***
**7.** Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

***Bod yn Agored***
**8.** Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

***Atebolrwydd***
**9.** Mae'r aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

***Rhoi Arweiniad***
**10.** Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddwch ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a chyflogeion eraill yr awdurdod.

## RHAN 1

## DEHONGLI

**1.**—(1) Yn y côd hwn —

mae "aelod" (*"member"*) yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" (*"co-opted member"*), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" (*"your authority"*) yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub â gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr "cyfarfod" (*"meeting"*) yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990(**3**),

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod; ac

ystyr "chi" (*"you"*) yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

Mewn perthynas â chyngor-cymuned, mae cyfeiriadau at swyddog monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod i'w darllen, yn y drefn honno, fel cyfeiriadau at swyddog monitro ac at bwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ganddo swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

---

(**1**) 2004 p.21.
(**2**) 1995 p.25
(**3**) O.S. 1990/1553 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/1389; O.S. 1993/1339; O.S. 1998/1918; ac O.S. 1999/500.

## RHAN 2

## DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**2.**(1)Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn —

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y côd hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

**3.**Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

**4.**Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran

**5.**Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

**6.**Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch)peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7.**Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat

**8.** Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

**9.**Rhaid i chi —

(a) parchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**RHAN 3**

## BUDDIANNAU

### *Buddiannau Personol*

**10.**—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch)undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

(b) pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol; neu

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na’r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

### *Datgelu Buddiannau Personol*

**11.**—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i’r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p’un ai ar lafar neu’n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

### *Buddiannau sy'n Rhagfarnu*

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o’r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw—

(a) yn gysylltiedig—

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â’ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o’i llywodraethwyr;

(v) â’ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawnamser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir o dan adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan adran 18 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan adran 100 o Deddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

### *Pwyllgorau Trosolygu a Chraffu*

**13.** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath )—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod—

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

## RHAN 4

## COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

### *Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac Aelodaeth o Gyrff a Safleoedd Rheoli*

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod;

neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a'ch buddiannau eraill, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod a gedwir o dan adran 81(1) o Deddf Llywodraeth Leol 2000, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu o newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan is-baragraff (1), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(4) Ni fydd is-baragraff (1) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

### *Gwybodaeth sensitif*

**16.**—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

Yn y côd hwn, ystyr “gwybodaeth sensitif” (“*sensitive information*”) yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion

### *Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch*

**17.** Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nod bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio.

Mehefin, 2008